Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS), Cynlluniau Eraill a Chynlluniau Coetir Datblygu Gwledig







Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

© Hawlfraint y Goron 2026

ISBN 978-1-83715-967-3

Mawrth 2026

**CYNNWYS**


**Pwyntiau Pwysig** ..... 1
Cyflwyniad ..... 1
Cyngor wrth lenwi'r SAF ..... 1
Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF ..... 2
Brasfapiau ..... 7
Cwsmeriaid â thir bob ochr y ffin ..... 9
Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir ..... 9
**Adran 1 – Dechrau Arni** ..... 10
Tudalen Hafan RPW Ar-lein ..... 10
Gweld Ceisiadau ..... 12
Dewis Eich Ffurflen Cais Sengl ..... 13
**Adran 2 - SAF** ..... 14
Dechrau / Parhau â'ch SAF ..... 14
Cyflwyniad ..... 17
Hawlio a Hawliau ..... 21
Hawlio ..... 21
Hawlio BPS ..... 21
Cynlluniau Eraill ..... 22
Y Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig rydych yn eu Hawlio ..... 23
Cymorth Organig ..... 24
Hawliau BPS ..... 26
Cynllun Troi'n Organig – Cydymffurfio ..... 27
Manylion y Busnes ..... 28
Trefniadaeth y Busnes ..... 28
Cynlluniau Gwarant Fferm ..... 29
Ffermwr Actif ..... 30
Manylion Ffermwyr Ifanc y BPS ..... 32
Lefelau Stocio ..... 34
Trawsgydymffurfio ..... 36
Hawliau Tir Comin ..... 37
Hawliau Tir Comin – Pori ..... 37
Hawliau Tir Comin – Eraill ..... 38
Data Caeau ..... 39
Rhestr Data Caeau ..... 41
Manylion Parseli Tir ..... 43
Deiliadaeth ..... 47
Brasfap ..... 48

Braslunio ... 50
Newid tir sydd ag angen rhif cae newydd ... 52
**Atodlen 6 – Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu ... 54**
**Crynodeb ... 57**
Cynlluniau ... 57
Cnydau ... 58
**Cyflwyno ... 59**
Gwallau a Gwybodaeth ... 59
Tystiolaeth Ddogfennol ... 60
Datganiadau ac Ymrwymiadau ... 62
**Cyflwyno ... 63**
**Manylion Cysylltu ... 64**
Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ... 64
Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal ... 64
**Mynediad at Swyddfeydd RPW i bobl ag anableddau neu anghenion arbennig ... 65**
Gwefan Llywodraeth Cymru ... 65
Gwlad ... 65

## Pwyntiau Pwysig

Dylech ddefnyddio'r llyfryn hwn i wneud cais am Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), Cynlluniau Eraill a Chynlluniau Coetir Datblygu Gwledig.

Os nad ydych yn bwriadu gwneud cais am Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) 2026, cyfeiriwch at *'Llawlyfr Sut I Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol, Cynlluniau Coetir ac Organig'*

### Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn esbonio sut i lenwi'ch Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 ar gyfer tir sydd o dan eich rheolaetho yng Nghymru.

Cyn llenwi'ch SAF, dylech ddarllen

- y canllaw hwn
- '*Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'*, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2026
- *'Taflenni Ffeithiau Trawsgydymffurfio i Ffermwyr'* diweddaraf.

Cafodd y SAF ei datblygu trwy gydweithrediad clos â ffermwyr, asiantwyr ffermwyr ac undebau ffermwyr, ac mae llawer ynddi i'ch helpu i'w llenwi'n gyflym ac yn hwylus. Mae fersiwn ar-lein y SAF yn cynnig help â chwestiynau penodol ac yn dilysu rhai o'ch atebion yn awtomatig i'ch helpu i fod yn gyson yn eich atebion ac i osgoi camgymeriadau hawdd eu rhagweld. Hefyd, bydd offer brasfapio a mesur ar-lein hwylus i'ch helpu i ddatgan Nodweddion Parhaol ac i newid codau cnydau.

Os nad ydych yn un o gwsmeriaid RPW Ar-lein, gallwch gofrestru trwy ddilyn y cyfarwyddiadau RPW Ar-lein: sut i gofrestru. Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.

Amseroedd agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid fel a ganlyn:

- 2 o Fawrth i 15 o Fai 2026 (ac eithrio gwyliau banc):
  Llun i Gwener: 09:00 i 16:00

### Cyngor wrth lenwi'r SAF

Os ydych yn ei chael hi'n anodd llenwi'ch SAF ar-lein, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar y rhif uchod i drafod yr help sydd ar gael.

Gall y staff yno esbonio ichi sut i lenwi'r cais, ond ni allant fod yn gyfrifol am yr hyn rydych yn ei hawlio neu ddim yn ei hawlio – eich cyfrifoldeb chi yw hynny. Fe allech fynd ar ofyn cyngor proffesiynol hefyd cyn cyflwyno'ch SAF.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r SAF**

Rhaid i'ch SAF gyrraedd Llywodraeth Cymru ddim hwyrach na chanol nos dydd Gwener, 15 Mai 2026. Bydd ceisiadau sy'n cyrraedd rhwng 16 Mai 2026 hyd at a chan gynnwys 9 Mehefin 2026 yn cael eu cosbi. Bydd ceisiadau a hawliadau sy'n cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026 yn cael eu gwrthod.

Rhaid i holl Ddogfennau Ategol y BPS gyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2026. Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law eich bod yn cynnal gweithgarwch amaethyddol yn 2026. Os na fydd tystiolaeth wedi cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Bydd gofyn ichi gyflwyno'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y Cynlluniau Eraill – Cymorth Organic (OS) a Chynllun Troi'n Organig (OCS) gan gynnwys y rhai i ddangos eich bod yn cynnal gweithgaredd amaethyddol, cyn y dyddiad cau o 31 Rhagfyr 2026. Os na fyddwch wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Ar gyfer **Cymorth Organig**, os oes rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth i ddangos gweithgarwch amaethyddol ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) neu os nad ydych wedi hawlio BPS, bydd raid ichi gyflwyno tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026 i brofi eich bod yn **gynhyrchydd cynradd o gynhyrchion amaethyddol**. Os na chyflwynir tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y **Cynllun Troi'n Orgaing** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Darllenwch *'Lyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'* am y cosbau am gyflwyno SAF a thystiolaeth ddogfennol yn hwyr.

**Wedi'u llenwi ar eich rhan**

Caiff yr wybodaeth ganlynol ei llenwi ar eich rhan ar eich SAF:

| Adran y SAF | Gwybodaeth wedi'i nodi ar eich rhan |
|---|---|
| Hawliadau | Ticiau i hawlio Cynllun Troi'n Organig - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a'r premiwm Cynnal Creu Coetir a'r Premiwm Creu Coetir lle mae'n cofnodion yn dangos bod gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant.<br><br>**Sylwer:** Ni fydd tic i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Cymorth Organig. Os ydych am hawlio taliad, gofalwch eich bod yn ticio **Cymorth Organig yn yr adran Hawlio.**<br><br>Wrth ddechrau'r SAF, gallwch ganiatáu inni roi tic i hawlio BPS 2026 ar eich rhan. Ni allwn wneud hynny os na chawsoch daliad BPS 2025.<br><br>**Pwysig:** Os nad yw ticiau hawlio BPS 2026 wedi'u nodi ar eich rhan a'ch bod am hawlio taliad, gofalwch eich bod yn ticio BPS 2026 yn yr Adran Hawlio. |

| Adran y SAF | Gwybodaeth wedi'i nodi ar eich rhan |
|---|---|
| Hawliau BPS | Yr hawliau sydd gennych yn ôl ein cofnodion ni. Ond nid hawliau sydd wedi'u trosglwyddo ac sydd heb eu prosesu eto. |
| Trefniadaeth y Busnes | Nifer yr unigolion yn y busnes yn ôl ein cofnodion cyfredol. |
| Trawsgydymffurfio | Wrth ddechrau'ch SAF, gallwch ddewis ein bod yn rhoi'r un atebion ag a gawsom gennych yn 2025. |
| Tir Comin | Yr hawliau pori tir comin y gwnaethoch eu datgan llynedd.<br><br>Wrth ddechrau eich SAF, gallwch ganiatáu inni roi tic wrth dir comin i hawlio BPS 2026. Ni allwn wneud hynny os na chawsoch daliad BPS 2025.<br><br>**Pwysig:** Os nad yw ticiau hawlio BPS 2026 wedi'u rhoi ar eich rhan a'ch bod am hawlio taliad, yna rhaid ichi sicrhau'ch bod yn ticio BPS 2026 ar gyfer pob comin rydych am gael taliad ar ei gyfer. |
| Data Caeau | Caeau sydd yn ôl ein cofnodion o dan eich rheolaeth ar 15 Mai 2026. Lle medrir, cofnodir cnydau, nodweddion parhaol wedi'u mapio ac arwynebeddau.<br><br>Ticiau i hawlio Cynllun Troi'n Organig - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a'r premiwm Cynnal Creu Coetir a Phremiwm Creu Coetir lle mae ein cofnodion yn dangos bod gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant.<br><br>**Pwysig:** Ni fydd ticiau i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Cymorth Organig. Os byddwch am hawlio'r taliad hwn, **bydd gofyn ichi roi tic yn y blwch hawlio Cymorth Organig (OS) yn yr Adran Data Caeau wrth bob parsel cymwys rydych am hawlio taliad arno.**<br><br>Wrth ddechrau eich SAF, gallwch ganiatáu inni roi tic wrth gnydau cymwys i hawlio BPS 2026. Ni allwn wneud hynny os na chawsoch daliad BPS 2025.<br><br>**Pwysig:** Os nad yw ticiau hawlio BPS 2026 wedi'u rhoi ar eich rhan a'ch bod am hawlio taliad, yna rhaid ichi sicrhau'ch bod yn ticio BPS 2026 ar gyfer pob cnwd parhaol rydych am gael taliad ar ei gyfer. |

Byddwn wedi rhoi cymaint o fanylion eich caeau, gan gynnwys Nodweddion Parhaol anghymwys, ar eich SAF ar eich rhan â phosibl. Bydd hyn yn dibynnu a fyddwn wedi dilysu'ch datganiad yn y flwyddyn ddiwethaf neu wedi cynnal asesiad mapio ar y cae. Mae'r tabl isod yn dangos yr wybodaeth y gallwn ei llenwi ar eich rhan.

| | **NID OES** gennym wybodaeth wedi'i dilysu am y cae | Mae gennym wybodaeth wedi'i dilysu am y cae |
|---|---|---|
| Cyfeirnod y ddalen | ✓ | ✓ |
| Rhif y cae | ✓ | ✓ |
| Enw'r cae | ✓ | ✓ |
| Cod y cnwd | ✓ | ✓ |
| Arwynebedd y cnwd | Ddim yn ei nodi | ✓ |
| Deiliadaeth | ✓ | ✓ |

**Dogfennau Ategol**

Rhaid cyflwyno Dogfennau Ategol BPS erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Bydd gofyn ichi gyflwyno'r dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer Cynlluniau Eraill – Cymorth Organig (OS) a Chynllun Troi'n Organig (OCS), gan gynnwys y rhai i ddangos eich bod yn cynnal gweithgaredd amaethyddol erbyn 31 Rhagfyr 2026 Os na fyddwch wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Ar gyfer **Cymorth Organig**, os oes rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth i ddangos gweithgarwch amaethyddol ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) neu os nad ydych wedi hawlio BPS, bydd raid ichi gyflwyno tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026 i brofi eich bod yn **gynhyrchydd cynradd o gynhyrchion amaethyddol**. Os na chyflwynir tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y **Cynllun Troi'n Orgaing** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

**Y dystiolaeth ddogfennol sydd ei hangen:**

<table>
<tr><th colspan="2">BPS, Cymorth Organig a Chynllun Troi'n Organig a– Gweithgarwch Amaethyddol</th></tr>
<tr><td>Os nad ydych yn datgan manylion eich da byw yn yr adran Lefelau Stocio neu os nad ydych yn datgan y cnydau Âr neu Barhaol yn yr adran Data Caea, rhaid ichi roi tystiolaeth eich bod yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol.</td><td>Mae'r busnes yn cynnal gweithgaredd cynhyrchu amaethyddol. Gallai tystiolaeth gynnwys:<br>• Cofnodion diadell neu fuches<br>• Derbynebau hadau glaswellt / cnydau âr<br>• Cofnodion llaeth<br>• Derbynebau gwerthu<br>• Tystiolaeth filfeddygol<br>• Adroddiad gan agronomegydd<br>• Derbynebau ffensys</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Derbynebau perthi<br>• Derbynbau gwrtaith<br>• Derbynebau plaladdwyr<br>• Derbynebau silwair, gwywair a gwair. |
| **BPS, Cymorth Organig a Chynllun Troi'n Organig a– Gweithgarwch Amaethyddol** | |
| | Mae'r busnes yn cadw'r tir mewn cyflwr sy'n addas ar gyfer ei bori a'i drin. Gallai tystiolaeth gynnwys:<br><br>• Copïau o anfonebau a ddefnyddiwyd i reoli chwyn a phrysgwydd goresgynnol estron e.e. plaladdwyr<br><br>• Copïau o gofnodion fferm sy'n dangos gwaith i reoli chwyn a phrysgwydd goresgynnol estron e.e. tocio, llyfnu, rholio, torri, plaladdwyr<br><br>• Copïau o gontractau neu gofnodion fferm ar gyfer gwaith cynnal a chadw ar ffiniau cadw stoc e.e. ffensys, plannu/torri perthi. |

| **BPS – Coed sy'n cael eu diogelu gan Orchymyn Cadw Coed (TPO)** | |
|---|---|
| Coed sydd â Gorchymyn Cadw Coed i'w hamddiffyn. | • Copi o'r Gorchymyn Cadw Coed ar gyfer y coed rydych yn hawlio BPS arnyn nhw<br>• Llythyr oddi wrth yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n deud bod y coed rydych yn hawlio BPS arnyn nhw yn destun Gorchymyn Cadw Coed. |

| **Cynllun Troi'n Organig** | |
|---|---|
| Tystiolaeth os ydych yn y 2 flynedd gyntaf o'ch Ddyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig. | • Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol, os oes angen<br>• Copi o Dystysgrif a Rhestr Tir diweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB)<br>• Copi o'r cais Corff Rheoli Organig.<br>• Cynllun Troi'n Organig<br>• Hawlwyr Garddwriaethol – cofnodion cnydau, anfonebau a derbynebau<br>• Hawlwyr sy'n godro: naill ai llythyr bwriad oddi wrth brynwr/prosesydd llaeth sy'n dangos y byddant, mewn |

| Cynllun Troi'n Organig | |
|---|---|
| | egwyddor, yn prynu'r llaeth organig ar ôl ichi droi'n organig NEU gadarnhad ac esboniad oddi wrth y rheini sy'n prosesu llaeth ar y daliad, o sut ydynt yn bwriadu newid eu dulliau prosesu a'u cynnyrch fel ymateb i faint o laeth organig sydd ar gael. |
| Tystiolaeth os ydych ym mlynyddoedd 3 i 5 o'ch Contract Cynllun Troi'n Organig. | • Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol, os oes angen<br>• Copi o Dystysgrif a Rhestr Tir diweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB). |

| Cymorth Organig | |
|---|---|
| Tystiolaeth, os ydych yn hawlio Cymorth Organig. | • Os oes angen i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos eich bob yn ymgymryd â gweithgarwch amaethyddol ar gyfer BPS neu os nad ydych wedi hawlio BPS, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos eich bod yn bodloni'r gofyniad ar gyfer cynhyrchwyr cynradd<br><br>Mae cynhyrchwyr cynnyrch amaethyddol cynradd yn cynnwys y sectorau ffermio canlynol; âr, cig eidion, godro, geifr, garddwriaeth, moch, dofednod, defaid, gwenyna.<br><br>• Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf<br>• Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant ar raddfa fasnachol. Os nad oes gennych dystiolaeth eich bod yn gwerthu'n fasnachol, er enghraifft, gan nad yw'r cnwd yn barod i'w gynaeafu, e.e. gwinllan neu berllan sydd newydd ei sefydlu, efallai y gallwn eich talu os |

| | |
|---|---|
| | gallwch gyflwyno tystiolaeth, e.e. anfonebau ar gyfer y planhigion a / neu luniau geo-dag o'r cnwd yn y ddaear, i ddangos y bydd eich menter yn gweithredu ar raddfa fasnachol<br>• Os ydych yn hawlio ar gyfer llaeth, tystiolaeth o werthu llaeth organig. neu gynhyrchion sy'n deillio o laeth<br>• Os oes gennych lai na 3 hectar o dir amaethyddol cymwys wedi'i gofrestru gyda Taliadau Gwledig Cymru yng Nghymru, mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos dros 550 o oriau llafur safonol:<br><br>Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol<br><br>**Neu**<br>Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw llythyr gan gyfrifydd achrededig fel prawf. Mae hyn yn golygu y dylid ei wirio gan ffynhonnell annibynnol, achrededig, fel cyfreithiwr, sydd â digon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau'r hawliad o waith 550 awr yn cael ei wneud. |

**Brasfapiau**

Bydd y SAF yn gofyn ichi am fap electronig pan:

- fydd dau god cnydau wedi'u nodi ar y ffurflen a bod BW1, CW1, GC2B, GC3B, GR9B, GS1B, GS2B, HE6B, RE3B neu SC2B yn un o'r codau hynny ac os yw'r arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer un o'r codau cnydau hyn yn wahanol i'r arwynebedd sydd wedi'i nodi. Er enghraifft, rydych wedi datgan GR2 ac SC2B ond bod yr arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ar gyfer SC2 yn wahanol i'r arwynebedd sydd wedi'i nodi.

- na fydd y cnydau'n gymwys am rai cynlluniau e.e. mae rhan o'r cae o dan SC2 – Coridor Glan Nant (ddim yn gymwys am BPS) ac mae'r gweddill o dan GR2 – Porfa barhaol (cymwys am BPS)

- fydd newid wedi'i wneud i bwll sy'n gymwys am BPS (PD1) neu'ch bod yn datgan pwll newydd sy'n gymwys am BPS yn y cae

- fydd newid wedi'i wneud i Nodwedd Barhaol neu'ch bod yn datgan Nodwedd Barhaol newydd mewn cae, fel yr isod:

| | | |
|---|---|---|
| ZZ10 | – | Coetir – conwydd – grŵp |
| YY14 | – | Coetir – conwydd – gwasgarog > 100/Ha |
| ZZ11 | – | Coetir – llydanddail – grŵp |
| YY15 | – | Coetir – llydanddail – gwasgarog > 100/Ha |
| YY16 | – | Coetir – boncyffion |
| ZZ20 | – | Rhedyn – grŵp |
| YY21 | – | Rhedyn – gwasgarog |
| ZZ22 | – | Prysgwydd/eithin/mieri – grŵp |
| YY23 | – | Prysgwydd/eithin /mieri – gwasgarog |
| ZZ40 | – | Sgri/creigiau/cnycau/tywod – grŵp |
| YY41 | – | Sgri/creigiau/cnycau/tywod – gwasgarog |
| ZZ30 | – | Pyllau – anghymwys |
| ZZ31 | – | Afonydd a nentydd |
| TR2 | – | Coetir conwydd – heb ei bori (gan gynnwys coed Nadolig) |
| WS1 | – | Coetir llydanddail – heb ei bori |
| NO1 | – | Gweithgareddau anamaethyddol |
| ZZ89 | – | Adeiladau a buarthau |
| ZZ92 | – | Arwynebau caled |
| ZZ94 | – | Heolydd |
| ZZ97 | – | Traciau heb eu pori |

O dan rai amgylchiadau, gofynnir am frasfapiau o barseli tir y cafodd Archwiliad Tir 2025 ei gynnal arnynt. Os yw'r datganiad tir yn cyd-fynd ag Archwiliad Tir 2025 ac nad oes unrhyw newid wedi'i wneud i'r parsel ers cynnal yr archwiliad, gallwch roi tic yn y blwch 'Newid oherwydd archwiliad' ar y parsel tir yn yr adran Data Caeau. Trwy roi tic yn y blwch hwn, ni fydd angen ichi gyflwyno brasfap o'r parsel. Byddwn yn defnyddio manylion Archwiliad 2025. Os oes unrhyw beth yn parsel wedi newid ers yr archwiliad h.y. newid i'r nodweddion parhaol ac ati, yna bydd angen ichi ddarparu brasfap, felly peidiwch â rhoi tic yn y blwch 'Newid oherwydd archwiliad'.

Os yw'r ffiniau wedi newid ers yr archwiliad, bydd angen ichi gyflwyno cais Rheoli fy Nhir. Gallwch wneud hynny ar eich cyfrif RPW Ar-lein os nad ydych eisoes wedi gwneud.

**Cwsmeriaid â thir bob ochr y ffin**

Rhaid i bob cwsmer sydd â thir yng Nghymru lenwi a chyflwyno SAF Cymru.

Nid yw'r tir rydych yn ei ffermio yn y DU i gyd yn dod o dan un cais BPS mwyach. Os ydych yn ffermio tir yng Nghymru a bod gennych Hawliau BPS o Gymru, dylech barhau i hawlio ar eich SAF Cymru.

Yng Nghymru, rhaid hawlio BPS ar o leiaf 5 hectar. Os oes gennych lai na 5 hectar o dir amaethyddol cymwys yng Nghymru ond eich bod yn Ffermwr Trawsffiniol ac ichi ddibynnu ar dir y tu allan i Gymru yn 2020 i ffurfio 5 hectar yr hawliad lleiaf, byddwch yn dal i fod yn gymwys yn 2026.Ond bydd Taliadau Gwledig Cymru dim ond yn talu BPS ar dir yng Nghymru fydd wedi'i hawlio gan ddefnyddio Hawliau BPS Cymru.

Peidiwch â chynnwys tir sydd mewn gwlad arall e.e. Lloegr, ar eich ffurflen Gymreig. Rhaid datgan y tir hwnnw ar ffurflen gais y wlad honno.

**Cynnal Caeau a Throsglwyddo Tir**

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i barseli tir ac unrhyw drosglwyddiadau tir o fewn 30 niwrnod ar ôl i'r newidiadau ddigwydd. Llenwch gais **'Rheoli fy Nhir'** gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein i roi gwybod inni os yw perchennog neu denant y tir yn newid. Rhaid defnyddio '**Rheoli fy Nhir**' hefyd i gofrestru tir newydd ac i roi gwybod inni am newidiadau i nodweddion parhaol ac i ffiniau caeau.

Bydd angen prawf arnom mai chi sy'n berchen ar y tir neu fod gennych hawl i'w feddiannu pan fyddwch yn cofrestru neu'n cymryd tir newydd.

Os ydych yn berchen ar y tir rydych yn ei gofrestru, rhaid ichi gyflwyno'r canlynol:

- **Gweithred Teitl neu**
- **Copi o Gofrestr Teitl.**

**Rhaid** i'r dogfennau hyn gynnwys y map cysylltiedig.

Os ydych yn denant neu'n borwr ar y tir, rhaid ichi gyflwyno naill ai llythyr oddi wrth y perchennog i gadarnhau ei fod wedi rhoi caniatâd ichi ddefnyddio'r tir at ddiben amaethyddol, gan gynnwys dyddiadau, neu gytundeb tenantiaeth wedi'i arwyddo gan bob parti. Ni fydd tystiolaeth arall yn ddigon a chaiff ei gwrthod.

Ni all adeiladau ac iardiau ond gael eu rhannu os oes ffin rwystrol yn bodoli a bod mynediad ar wahân ar gyfer y ddwy ardal. Os nad oes ffin rwystrol a mynediad ar wahân ni chaniateir i chi rannu'r parsel tir presennol.


Yn ôl i'r cynnwys

# Adran 1 – Dechrau Arni

## Tudalen Hafan RPW Ar-lein

Gellir cael mynediad at eich Cyfrif RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth neu One Login GOV.UK.

Efallai y bydd angen ichi ddilyn cyfarwyddiadau Mewngofnodi a Chofrestru os nad ydych wedi logio i mewn ers tro. Os nad ydych yn gwsmer eisoes gydag RPW Ar-lein, gallwch gofrestru trwy ddilyn y cyfarwyddiadau RPW Ar-lein: sut i gofrestru. Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu mynd i'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004.


Llywodraeth Cymru Welsh Government
RPW
Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English

### Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

○ Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
○ Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

### Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

### Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

### Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.


Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

### Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni

Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

Ar ôl mewngofnodi i’ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen ‘Hafan’ RPW Ar-lein fel y dangosir yn y sgrin lun isod. (Caiff Asiantwyr neu Undebau Ffermwyr sy’n gweithredu ar ran y cwsmer weld y sgrin hon ar ôl iddyn nhw ddewis cwsmer o’r sgrin dewis cwsmeriaid.)




[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Gweld Ceisiadau

I weld ffurflen SAF, cliciwch naill ai (ar y tab ‘Hafan’) y botwm glas ‘Dechrau SAF 2026’; dolen ‘Ffurflen Cais Sengl 2026’ fel y dangosir yn y sgrin lun isod;




neu (ar y tab ‘Ffurflenni’) dolen ‘Ffurflen Cais Sengl 2026’ fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




[Yn ôl i’r cynnwys](#)


**Dewis Eich Ffurflen Cais Sengl**

Rhaid i chi benderfynu pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano: Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol neu Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS). Byddwch yn dal i allu gwneud cais am gynlluniau tir eraill, gan gynnwys cynlluniau coetir ac organig os dewiswch y naill opsiwn neu'r llall.

Os ydych am wneud cais am gynlluniau Organig neu Goetir **yn unig**, dylech ddewis yr opsiwn Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS).

Os byddwch yn penderfynu wrth gwblhau eich cais, nad ydych bellach yn dymuno gwneud cais o dan y cynllun hwnnw, gallwch ddefnyddio'r botwm 'Dechrau Eto' i ddewis eto pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano.

Os ydych yn bwriadu hawlio am Gynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, cyfeiriwch at '*Llawlyfr Sut i Lenwi ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein ar gyfer Cyllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) – yr Haen Gyffredinol, Cynlluniau Coetir ac Orgaing*'.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 58 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

Dewis Eich Ffurflen Cais Sengl

Rhaid i chi benderfynu pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano. Byddwch yn dal i allu gwneud cais am gynlluniau tir eraill, gan gynnwys cynlluniau coetir ac organig os dewiswch y naill opsiwn neu'r llall. Os ydych am wneud cais am gynlluniau organig neu goetir **yn unig**, dylech ddewis yr opsiwn Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS).

Os byddwch yn penderfynu wrth gwblhau eich cais, nad ydych bellach yn dymuno gwneud cais o dan y cynllun hwnnw. Gallwch ddefnyddio'r botwm 'Dechrau Eto' i ddewis eto pa gynllun yr hoffech wneud cais amdano.

Ar ôl i chi gyflwyno eich SAF a gwneud hawliad am Gynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol, a bod y dyddiad cau cyflwyno SAF wedi mynd heibio (15 Mai 2026, neu 9 Mehefin 2026 gyda chosbau hawlio hwyr) ni fyddwch yn gallu hawlio BPS mwyach. Os oes gennych Hawliau BPS, ni fyddant ar gael ichi yn 2026 ac ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Os penderfynwch beidio â hawlio Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol 2026, gallwch wneud cais yn y blynyddoedd a ddaw.

Mae rhagor o fanylion ar gael ar y dudalen Grantiau a Thaliadau Gwledig ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Ydych chi am wneud cais am:**

○ Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) - yr Haen Gyffredinol

● Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS)


Parhau | Yn ôl

Yn ôl i'r cynnwys

# Adran 2 - SAF

## Dechrau / Parhau â'ch SAF

Ar ôl pwyso'r botwm i ddechrau'ch SAF, fe welwch y dudalen Dechrau Cais fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Gofalwch fod y manylion arni'n gywir ac os nad ydyn nhw, cywirwch nhw ar eich cyfrif RPW Ar-lein cyn mynd ymhellach.  Os ydych yn barod i fynd yn eich blaen, cliciwch ar y botwm 'Dechrau'.



Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

[redacted] English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 8 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Dechrau Cais dechrau cais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Cais Sengl 2026.**

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Rhaid sicrhau bod eich **Ffurflen Cais Sengl 2026** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 rhag ichi gael eich cosbi am gyflwyno cais yn hwyr.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y BPS a Cymorth Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn cefnogi eich cais.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Mehefin 2026. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 9 Mehefin 2026.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Cais Sengl 2026** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

**Enw Masnachu**

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

**Rhif Ffôn**

**Cyfeiriad e-bost**

**Nifer y Partneriaid**

[redacted]

Dewisiadau Ar-lein

**E-bost neu neges destun (SMS) gan RPW**


**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn symudol**

[redacted]

Dechrau | Canslo

Ar ôl clicio’r botwm Dechrau, welwch chi sgrin ‘Rhoi gwybodaeth ar eich SAF’ fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




**Darllenwch hwn yn ofalus** ac yna cliciwch naill ai ‘Ydw’ neu ‘Nac ydw’. **Cofiwch, pa un bynnag ddewiswch chi, chi sy’n gyfrifol am gadarnhau bod eich cais cyfan yn gywir a chyflawn a’i fod yn adlewyrchu’r newidiadau ar gyfer 2026.**

Gallwch ddewis gadael y SAF unrhyw bryd a dychwelyd ati eto (o fewn y dyddiad cau). Os ydych eisoes wedi dechrau llenwi’ch SAF ac yna’n mynd allan ohoni cyn ei chyflwyno, bydd y sgriniau nawr yn dangos ‘Parhau â’r Cais’ yn lle ‘Dechrau Cais’ fel y dangosir yn y sgrin lun isod.



Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

[redacted]

English | Allgofnodi

Hafan | Manylion y CRN | Tir | Gohebiaeth 8 | Ffurflenni | Contractau a Grantiau Bach | Cynlluniau Coetir

## Parhau â Chais parhau â chais neu hawliad

Rydych wedi gofyn am gael llenwi'r cais canlynol ar-lein: **Ffurflen Cais Sengl 2026.** Rydych wrthi'n gweithio ar eich ffurflen. Cliciwch ar 'Parhau' i symud ymlaen â **Ffurflen Cais Sengl 2026.**

Cewch ddewis dileu'ch **Ffurflen Cais Sengl 2026** presennol a dechrau eto. Trwy wneud, byddwch yn dadwneud y newidiadau sydd wedi'u gwneud ers ichi ddechrau'ch **Ffurflen Cais Sengl 2026** a llenwir y **Ffurflen Cais Sengl 2026** newydd â'r data diweddaraf. Os ydych am wneud, cliciwch 'Dechrau Eto'.

Bydd RPW Ar-lein yn gofyn i chi am yr wybodaeth sydd ei hangen ar y ffurflen. Drwy ddechrau llenwi'r ffurflen ar-lein, nid ydych yn ymrwymo i'w chyflwyno ar-lein; gallwch adael y broses ar unrhyw adeg. Os ydych chi'n gadael y ffurflen, gallwch ddychwelyd yn ôl ati rywbryd arall i'w chwblhau. Bydd RPW Ar-lein wedi arbed yr wybodaeth y byddwch wedi'i nodi yn eich sesiwn flaenorol.

Ni fydd y ffurflen yn cael ei hanfon i Lywodraeth Cymru nes eich bod yn clicio ar 'Anfon' ar ddiwedd y broses. Unwaith eich bod wedi'i chyflwyno, ni fyddwch yn gallu gwneud newidiadau iddi gyda RPW Ar-lein.

Rhaid sicrhau bod eich **Ffurflen Cais Sengl 2026** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 15 Mai 2026 rhag ichi gael eich cosbi am gyflwyno cais yn hwyr.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y BPS a Cymorth Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn cefnogi eich cais.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun.

Mae'n rhaid i chi anfon y ffurflen i Lywodraeth Cymru erbyn 9 Mehefin 2026. Ni fyddwch yn gallu anfon eich ffurflen ar ôl y dyddiad hwn hyd yn oed os ydych chi wedi dechrau llenwi'r ffurflen cyn 9 Mehefin 2026.

Os oes gennych chi broblemau yn llenwi **Ffurflen Cais Sengl 2026** yna gallwch chi gysylltu â'r 'Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid' am ragor o gymorth.

Cofiwch wneud yn siŵr bod Manylion y Cwsmer a'r Dewisiadau Ar-lein a nodir isod yn gywir cyn anfon y ffurflen. Os ydyn nhw'n anghywir, gallwch eu newid nawr drwy glicio ar y dolenni Manylion y Cwsmer neu Dewisiadau Ar-lein isod.

Manylion y Cwsmer

**Enw Masnachu**

**Cyfeiriad**

**Côd Post**

**Rhif Ffôn**

**Cyfeiriad e-bost**

**Nifer y Partneriaid**

[redacted]

Dewisiadau Ar-lein

**E-bost neu neges destun (SMS) gan RPW**

**Cyfeiriad e-bost**

**Rhif ffôn symudol**

[redacted]

Parhau i weithio ar **Ffurflen Cais Sengl 2026** a gafodd ei ddiweddaru ar [redacted]

Parhau | Yn ôl


Gallwch hefyd ddewis ‘Dechrau Eto’ os ydych am ailddechrau’ch cais. **O wneud hynny, byddwch yn dileu’r wybodaeth rydych eisoes wedi’i rhoi ar eich SAF,** felly peidiwch â dewis yr opsiwn hwn oni bai bod yr amgylchiadau’n eithriadol, a dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin.

[Yn ôl i’r cynnwys]

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn rhoi negeseuon pwysig ichi am y SAF fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Gofalwch eich bod yn eu darllen yn fanwl cyn dechrau.

Mae yna ddolenni hefyd i Lyfryn Rheolau'r SAF a'r canllaw Sut i Lenwi'r SAF ar wefan Llywodraeth Cymru (byddwch yn agor tab newydd ar eich Porwr).  Gallwch weld y canllaw Sut i Lenwi unrhyw bryd trwy glicio'r 'Canllaw Helpu'.



SAF 2026

[redacted] Helpu

- Cyflwyniad
- Hawlio a Hawliau
- Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio
- Manylion y Busnes
- Ffermwr Actif
- Manylion Ffermwr Ifanc y BPS
- Lefelau Stocio
- Trawsgydymffurfio
- Hawliau Tir Comin
- Data Caeau
- ATODLEN 6 - Datganiad Sicrwydd
- Crynodeb
- Cyflwyno

Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid defnyddio SAF 2026 i hawlio taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS). Rhaid i chi ddefnyddio SAF 2026 i hawlio am Gynlluniau Eraill - Troi'n Organig (OCS), Cymorth Organig (OS), Cynnal Creu Coetir (WCM) a'r Premiwm Creu Coetir (WCP) ar ôl plannu newydd a gwblhawyd o dan y Grant Creu Coetiroedd (WCG) neu Grantiau Bach - Cynllun Creu Coetir. Rhaid i chi hefyd ddefnyddio'r SAF 2026 os hoffech hawlio taliad o dan Gynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig (DG) - Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP a GCP) a Thaliad Cynnal Creu Coetir Glastir (GCM).

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darllenwch Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein a Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026 cyn dechrau llenwi'ch cais.

- **Nid yw Llywodraeth Cymru'n gyfrifol** am gywirdeb unrhyw wybodaeth a roddir i gefnogi cais am BPS, Cynlluniau Eraill neu Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig.
- Eich **cyfrifoldeb chi** yw sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd wedi'i rhoi a'i chyflwyno ar eich SAF 2026 yn wir, yn gywir ac yn gyflawn a bod yr holl gwestiynau wedi'u hateb yn llawn.
- Byddwn wedi llenwi cymaint o'ch SAF â phosibl ar eich rhan â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch. Ond mae'n bwysig eich bod yn rhoi unrhyw **newidiadau ar gyfer 2026** ar eich SAF 2026 ac yn gwneud yn siŵr **eich bod yn hawlio ar yr holl gynlluniau a thiroedd** yr ydych am eu hawlio.
- **Sicrhewch fod yr holl wybodaeth yn yr adran Data Caeau yn gywir a'i bod yn cyfateb i'r sefyllfa ar eich fferm.** Pwysig: os ydych wedi apelio yn erbyn honiad eich bod wedi gorddatgan ac nad oes penderfyniad pendant wedi'i wneud eto, rhaid ichi **ystyried yn ofalus yr arwynebedd rydych am ei ddatgan**. Ni chewch hawlio ar fwy na'r arwynebedd sydd wedi'i ddatgan ond os gwelwn eich bod yn datgan arwynebedd mwy na'n cofnod, **yna byddwn yn lleihau'ch hawliad ac efallai y cewch eich cosbi.**
- Eich **cyfrifoldeb chi** yw gofalu bod pob cae yn gymwys i hawlio eich taliadau tir blynyddol. **Rydym yn eich cynghori i ddarllen eich cais i sicrhau'ch bod wedi ticio'r holl gaeau rydych am hawlio arnynt**.
- Os gwelir bod y manylion y byddwch wedi'u rhoi ar eich SAF 2026 yn anghywir, mae'n bosibl y byddwch yn cael eich cosbi yn unol â'r ddeddfwriaeth.
- Rhaid ichi nodi ar eich SAF yr holl dir yng **Nghymru** yr ydych yn berchen arno a'i rentu gyda rheolaeth drosto ac sydd ar gael i chi ar **15 Mai 2026**. Peidiwch â chynnwys tir rydych yn ei rentu allan, nad yw ar gael ichi.
- Rhaid ichi sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol ar gyfer y BPS, a/neu OS yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **31 Rhagfyr 2026** er mwyn cefnogi eich cais.
- Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y Cynllun Troi'n Organig yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **31 Rhagfyr 2026** er mwyn bodloni gofynion y cynllun.
- Rhaid sicrhau bod eich SAF 2026 yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn **15 Mai 2026** rhag ichi gael eich cosbi am gyflwyno cais yn hwyr.
- **Byddwn yn gwrthod ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl 9 Mehefin 2026.**
- Bydd pob taliad yn cael ei dalu'n syth i'ch Cyfrif Banc (mewn Sterling). Gofalwch fod manylion eich cyfrif banc sydd gan Lywodraeth Cymru ar eich cyfer yn gywir.

**Hysbysiad Preifatrwydd**

Caiff yr wybodaeth a ddarperir gennych ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i brosesu eich Ffurflen Cais Sengl (SAF). Ni hefyd fydd y rheolydd data ar gyfer y data personol a ddarperir gennych. Mae angen inni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn inni brosesu'ch SAF. Gallwn hefyd ddefnyddio'r wybodaeth a roddir gennych at ddibenion eraill, a fydd yn cynnwys dibenion sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau a'n dyletswyddau o dan Cynllun y Taliad Sylfaenol, Cynlluniau Eraill a Chynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig. Gall methu â darparu'r holl wybodaeth ofynnol olygu na fyddwn yn gallu prosesu'ch SAF.

Fel rhan o'r broses o brosesu eich SAF, mae'n bosibl y bydd angen i ni rannu'r wybodaeth a ddarperir gennych gyda chyrff llywodraethol a rheoleiddiol eraill. Byddwn hefyd yn cyhoeddi ychydig o'r wybodaeth fel sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith.

Mae gennych yr hawl:

- i weld y data personol sy'n cael eu prosesu
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw gamgymeriadau yn y data hynny
- i wrthwynebu'r prosesu neu i gyfyngu ar yr hyn a brosesir (dan rai amgylchiadau)
- i'ch data gael eu 'dileu' (dan rai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ym maes diogelu data.

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yw:
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
Yr Ail Lawr, Tŷ Churchill
Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH
Ffôn: 0330 414 6421
Gwefan: https://ico.org.uk/

Bydd y cyfnod cadw ar gyfer y data a ddelir gennym yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014, "Conservation of Accounting Information".

Os hoffech ragor o wybodaeth, darllenwch ein polisi preifatrwydd llawn yma:
https://llyw.cymru/grantiau-thaliadau-gwledig-hysbysiad-preifatrwydd

Printio | English | Gadael | Yn ôl | Safio | Gweld Map | Nesaf

Mae'n bosib na fyddwch yn gallu gweld y ddewislen ar y chwith os mai sgrin fach sydd ar eich dyfais.  Chwyddwch y llun ar eich dyfais ond gallwch lenwi'r SAF heb orfod gweld y ddewislen ar y chwith.

Mae’r ddewislen ar y chwith yn dangos statws pob un o adrannau’ch SAF:

- mae croes goch yn dangos eich bod naill ai heb edrych ar yr adran, neu fod gwallau ynddi. Chewch chi ddim cyflwyno’r SAF nes eich bod wedi llenwi’r adrannau i gyd a bod pob gwall wedi’i gywiro

- mae tic gwyrdd yn dangos bod adran wedi’i chwblhau ac nad oes gwallau na negeseuon gwybodaeth ynddi hyd y gwelwn. (Dim ond rhannau o’r SAF sy’n cael eu dilysu ar-lein a chaiff ei dilysu’n llawn ar ôl ichi ei chyflwyno. Y cyfan y gallwn ei ddweud felly yw ei bod yn ymddangos yn gywir, ar sail y manylion rydych wedi’u darparu.)

- mae ‘i’ ambr yn dangos bod negeseuon gwybodaeth yn yr adran. Ni fydd hynny’n eich rhwystro rhag cyflwyno’ch SAF.


Gallwch newid iaith y sgrin hefyd rhwng Cymraeg a Saesneg trwy bwyso ar y botwm ar y ddewislen ar y chwith.

Ar ôl ichi ddarllen a deall llyfryn rheolau’r SAF, cliciwch ‘Nesaf’ ar gorneli dde uchaf neu isa’r sgrin i fynd i’r adran ‘Hawlio a Hawliau’.


Rhaid ichi gwblhau pob un o adrannau’r SAF cyn ei chyflwyno. Trwy glicio ‘Nesaf’, byddwch yn safio’r adran rydych newydd ei llenwi. Cliciwch y botwm ‘Gadael’ unrhyw bryd os ydych am fwrw ymlaen â’ch SAF rywdro eto. **Cofiwch – eich cyfrifoldeb chi yw gofalu bod eich SAF yn cael ei chyflwyno erbyn y dyddiad cau, a’i bod yn eich blwch Negeseuon RPW Ar-lein fel cadarnhad ein bod wedi cael copi.**

Mae’r system yn archwilio data sylfaenol ar eich ffurflen a bydd gwallau neu negeseuon gwybodaeth yn ymddangos naill ai wedi ichi safio adran neu wedi ichi glicio ‘nesaf’ i fynd i’r adran nesaf. Ar ôl ichi lenwi adran, gallwch fynd yn ôl ati i gywiro camgymeriadau neu i’w newid. Gallwch hefyd ddewis ‘Printio’ y SAF neu ‘Gweld Map’ unrhyw bryd.

**Enghraifft o Neges Gwall ar y sgrin lun isod:**




**Enghraifft o Neges Gwybodaeth ar y sgrin lun isod:**



**Botymau ym mhob adran**

Pan fyddwch chi yn unrhyw rai o’r adrannau, bydd botymau safonol ichi eu defnyddio.

Ar dop y dudalen fel y dangosir yn y sgrin lun isod:





Help?– bydd y ddolen hon yn mynd â chi at gopi PDF o *‘Llawlyfr Sut i Lenwi Ffurflen Cais Sengl (SAF) 2026 Ar-lein’.*

Help ar gyfer y Dudalen hon – yn dangos help penodol ichi ar gyfer yr adran rydych yn gweithio ynddi.  Welwch chi mohono ym mhob adran.

Yn ôl a Nesaf – i chi allu mynd o un adran i’r llall.

Safio – cliciwch ar hwn i safio (arbed) unrhyw newidiadau rydych eisoes wedi’u gwneud (cliciwch ‘Nesaf’ a byddwch yn safio’r adran rydych newydd ei llenwi yn awtomatig).

Ar waelod y dudalen fel y dangosir yn y sgrin lun isod:




Gadael – cliciwch ar hwn i adael y SAF ac i allu dod nôl ati unrhyw bryd (o fewn y terfynau amser).


Help ar gyfer y Dudalen hon – yn dangos help penodol ichi ar gyfer yr adran rydych yn gweithio ynddi.  Welwch chi mohono ym mhob adran.


Yn ôl a Nesaf – i chi allu mynd o un adran i’r llall.

Safio – cliciwch ar hwn i safio (arbed) unrhyw newidiadau rydych eisoes wedi’u gwneud (cliciwch ‘Nesaf’ a byddwch yn safio’r adran rydych newydd ei llenwi yn awtomatig).

Gweld Map – cliciwch ar hwn i fynd i’ch map SAF.

Printio – Ar waelod y dudalen yn y cornel chwith, cliciwch ar hwn i brintio copi o’ch SAF unrhyw bryd.  Bydd y neges a ddangosir ar y sgrin lun isod yn ymddangos:







[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Hawlio a Hawliau

### Hawlio

### Hawlio BPS




Os ydych chi am hawlio BPS 2026 a / neu Daliad Ffermwyr Ifanc y BPS, rhaid ticio'r blwch/blychau priodol fel y dangosir yn y sgrin lun uchod a nodi hefyd y tir rydych chi am ei ddefnyddio i hawlio'r taliadau hyn yn adrannau'r 'Tir Comin' a 'Data Caeau'.  (Chewch chi ddim Taliad Ffermwyr Ifanc y BPS heb eich bod hefyd yn hawlio BPS 2026.)

Os ydych am hawlio Taliad Ffermwr Ifanc y BPS, rhaid ichi lenwi'r adran 'Manylion y Ffermwr Ifanc – y Gronfa Genedlaethol a'r Taliad'.

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Cynlluniau Eraill


Rhaid ichi roi tic i ddangos taliadau pa Gynlluniau Eraill rydych am eu hawlio.

Byddwn yn rhoi tic yn y **Cynllun Troi'n Organig (OCS)** a thiciau ar lefel parsel ar eich rhan os bydd ein cofnodion yn dangos bod gennych ddyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026. Rhaid i chi gadarnhau bod hyn yn iawn a'i newid os oes angen. O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo'ch talu.

**Sylwer:** Ni fydd ticiau i hawlio yn cael eu llenwi ymlaen llaw ar gyfer Cymorth. Os ydych am hawlio taliad, **fydd rhaid i chi rhoi tic gyferbyn a Cymorth Organig yn Adran Hawliadau.**

**Sylwer:** Yn 2026, fydd gofyn ichi ddangos y caeau rydych am eu defnyddio i gefnogi taliad **Cymorth Organig. Bydd rhaid i chi ychwanegu tic yn y blwch i hawlio Cymorth Organig yn yr Adran Data Caeau ar gyfer bob parsel cymwys yr hoffech hawlio taliad arnynt.**

Byddwn yn llenwi hawliad ymlaen llaw a thicio ar lefel parsel os yw ein cofnodion yn dangos bod gennych gontract a / neu ddyfarniad grant o dan y **Grant Creu Coetir** a / neu **Grantiau Bach – Creu Coetir**.




Os nad oes gennych ddyfarniad grant a/neu gontract bellach ar gyfer unrhyw gynlluniau rydym wedi'u ticio, rhaid dileu'r tic.

Os oes gennych ddyfarniad grant a/neu gontract ar gyfer cynlluniau nad ydym wedi rhoi tic wrthyn nhw a'ch bod am hawlio'r cynlluniau hynny, **rhaid** rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol. Wrth wneud hynny, fe welwch neges gwybodaeth fel yr un a ddangosir yn y sgrin lun isod i wneud yn siŵr nad ydych wedi ticio'r blwch hawlio trwy ddamwain.




[Yn ôl i'r cynnwys](#)

**Y Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig rydych yn eu Hawlio**

Rhaid ichi roi tic i ddangos taliadau pa gynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig yr rydych am eu hawlio.

### Y Contractau Creu Coetir Datblygu Gwledig rydych yn eu Hawlio

Ticiwch bob cynllun rydych am hawlio taliad wrtho. O beidio â gwneud, efallai chewch chi ddim mo'ch talu. Rydym wedi ticio'r blychau hawlio ar eich rhan, ar sail yr wybodaeth sydd gennym amdanoch. Ychwanegwch neu dynnwch y ticiau hyn yn ôl y gofyn.

☐ Premiwm Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd cyn 1 Hydref 2015 (GWCP)

☐ Taliad cynnal Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015 (GCM)

☐ Premiwm Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015 (GCP)

Byddwn wedi rhoi tic ar eich rhan wrth flychau hawlio'r cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig lle bo'n cofnodion yn dangos bod gennych gontract.

Os nad oes gennych gontract bellach ar gyfer unrhyw gynlluniau rydym wedi'u ticio, rhaid dileu'r tic.

Os oes gennych gontract ar gyfer cynlluniau nad ydym wedi rhoi tic wrthyn nhw a'ch bod am hawlio'r cynlluniau hynny, rhaid rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol. Wrth wneud hynny, fe welwch neges gwybodaeth fel yr un a ddangosir yn y sgrin lun isod i wneud yn siŵr nad ydych wedi ticio'r blwch hawlio trwy ddamwain.

☑ Premiwm Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd cyn 1 Hydref 2015 (GWCP)


- Rydych wedi dangos eich bod am hawlio GWCP. Gofalwch fod gennych gontract dilys.

☐ Taliad cynnal Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015 (GCM)


Yn ôl i'r cynnwys

# Cymorth Organig

Os nad ydych wedi hawlio Chymorth Organig ni fydd angen ichi ateb unrhyw gwestiynau yn yr adran hon ac fe welwch yn y sgrin lun canlynol.  (Os mai ’ch bwriad oedd hawlio Chymorth Organig, ewch yn ôl i’r adran ‘Hawlio a Hawliau’ i gywiro hyn.)





Fel arall, fe welwch y sgrin lun canlynol a rhaid ateb yr holl gwestiynau.




## Pwy sy'n gymwys

Rhaid ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.

Os ydych yn ateb 'Ydw' i'r cwestiwn 'A ydych chi'n gynhyrchydd cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant?', bydd angen ichi gadarnhau arwynebedd (ha) y cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant a dyfir, fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Bydd angen i chi hefyd gyflwyno dogfennau ategol sy'n dangos gwerthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant ar raddfa fasnachol, er enghraifft, derbyniadau gwerth ar gyfer llysiau.  Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant ar raddfa fasnachol.  Os nad oes gennych dystiolaeth eich bod yn gwerthu'n fasnachol, er enghraifft, gan nad yw'r cnwd yn barod i'w gynaeafu, e.e. gwinllan neu berllan sydd newydd ei sefydlu, efallai y gallwn eich talu os gallwch gyflwyno tystiolaeth, e.e. anfonebau ar gyfer y planhigion a / neu luniau geo-dag o'r cnwd yn y ddaear, i ddangos y bydd eich menter yn gweithredu ar raddfa fasnachol.



Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn 'Ydych chi'n gynhyrchydd llaeth?' bydd angen ichi nodi nifer yr anifeiliaid godro ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Bydd angen i chi hefyd gyflwyno dogfennau ategol, er enghraifft, copi o gontract llaeth ar gyfer blwyddyn galendr 2026.  Os ydych yn prosesu llaeth ar y daliad, rhaid cadarnhau hynny ac esbonio'n ysgrifenedig sut rydych chi'n gwerthu'ch cynnyrch llaeth wedi'i brosesu.

Ydych chi'n gynhyrchydd llaeth? * ◉ Ydw ○ Nac ydw

**Nodwch:** Mae cynhyrchwyr llaeth yn cynnwys y bobl hynny sy'n gwerthu llaeth i brynwr neu brosesydd llaeth a chynhyrchwyr sy'n prosesu'r llaeth eu hunain ar gyfer gwerthu'n uniongyrchol.

**Nodwch nifer y anifeiliaid godro sydd gennych ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol.**

Faint o wartheg godro sydd ar y daliad? (24 mis neu hŷn)

Faint o wartheg godro cadw sydd ar eich daliad? (6 - 24 mis)

Faint o eifr godro sydd ar y daliad? (6 mis neu hŷn)

Faint o eifr godro cadw sydd ar eich daliad? (Llai na 6 mis)

Faint o ddefaid godro sydd ar eich daliad? (6 mis neu hŷn)

Faint o ddefaid godro cadw sydd ar eich daliad? (Llai na 6 mis)

Os atebwch 'Oes' i'r cwestiwn 'Anifeiliaid godro eraill?', bydd angen ichi roi manylion yr anifeiliaid godro eraill yn y blwch testun a nodi nifer yr anifeiliaid godro eraill ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Bydd angen i chi hefyd gyflwyno dogfennau ategol, er enghraifft, copi o gontract llaeth ar gyfer blwyddyn galendr 2026.  Os ydych yn prosesu llaeth ar y daliad, rhaid cadarnhau hynny ac esbonio'n ysgrifenedig sut rydych chi'n gwerthu'ch cynnyrch llaeth wedi'i brosesu.

Anifeiliaid Godro Eraill * ◉ Oes ○ Nac oes

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau) *

0 / 255

**Nodwch nifer o anifeiliaid godro eraill sydd gennych ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol.**

Faint o anifeiliaid godro eraill sydd ar eich daliad? (24 mis neu fwy)


Faint o anifeiliaid godro eraill sydd ar eich daliad? (6 – 24 mis)

Faint o anifeiliaid godro cadw eraill sydd ar eich daliad? (Llai na 6 mis)

**Rhaid i chi hefyd gyflwyno'r dogfennau ategol angenrheidiol erbyn 31 Rhagfyr 2026.**

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Hawliau BPS




Mae’r sgrin lun uchod yn dangos yr Hawliau BPS sydd ar gael ichi gael taliad arnyn nhw.

Gallwch ei defnyddio i:


- ychwanegu hawliau rydych wedi’u prynu neu eu lesio i mewn gyda thir nad ydyn nhw wedi’u nodi yn SAF 2026 ond eich bod wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy *‘Trosglwyddo Hawliau’* eich bod wedi’u prynu neu lesio

- newid nifer yr hawliau os ydych wedi gwerthu neu wedi’u lesio allan hawliau gyda thir.

Yn ôl i’r cynnwys

## Cynllun Troi’n Organig – Cydymffurfio

Os nad oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant Cynllun Troi’n Organig presennol, ni fydd angen ichi ateb unrhyw gwestiwn yn yr adran hon fel y gwelwch yn y sgrin lun canlynol.



Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Nid oes unrhyw gwestiynau i chi eu hateb yn yr adran hon oherwydd nad oes gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig.

Fel arall, fe welwch y sgrin lun canlynol a rhaid ateb y cwestiwn.

Os oes gennych gontract a/neu ddyfarniad grant Cynllun Troi’n Organig, mae’n rhaid i chi gadarnhau eich bod yn bodloni eich gofynion cytundebol ar y SAF.


Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio


Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

A ydych wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cytundebol sy'n berthnasol o fewn eich Contract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig? * Ydyn / Nac ydyn

**Sylwer**: Rhaid i chi gyflwyno copi o dystysgrif ddiweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB) a’r Rhestr Tir er mwyn bodloni gofynion y cynllun erbyn 31 Rhagfyr 2026.

Os nad ydych yn bodloni gofynion cytundebol Cynllun Troi’n Organig, bydd rhaid i chi ateb ‘na’ i gwestiwn “A ydych wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cytundebol sy'n berthnasol o fewn eich contract a/neu ddyfarniad grant Cynllun Troi'n Organig?” ac bydd angen i chi rhoi rhagor o fanylion yn y blwch testun a ddangosir yn y sgrin lun isod.


Cynllun Troi'n Organig - Cydymffurfio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

A ydych wedi cydymffurfio â'r holl ofynion cytundebol sy'n berthnasol o fewn eich Contract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig? * Ydyn / Nac ydyn

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau). *

0 / 255


**Sylwer**: Rhaid i chi gyflwyno copi o dystysgrif ddiweddaraf y Corff Rheoli Organig (OCB) a’r Rhestr Tir er mwyn bodloni gofynion y cynllun erbyn 31 Rhagfyr 2026.

**Rhaid i chi hefyd gyflwyno'r dogfennau ategol angenrheidiol erbyn 31 Rhagfyr 2026.**

[Yn ôl i’r cynnwys]

## Manylion y Busnes

### Trefniadaeth y Busnes


Manylion y Busnes Trefniadaeth y Busnes
Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Nifer y partneriaid yn y busnes: 1


Os ydy'r uchod yn anghywir, rhowch y nifer cywir o bartneriaid sydd yn y busnes.

A yw strwythur y busnes hwn wedi newid ers **15 Mai 2025**? * Ydy / Nac ydy

A oes gennych fuddiannau newydd mewn busnesau amaethyddol sydd heb eu dilysu gan Lywodraeth Cymru ers **15 Mai 2025**? * Oes / Nac oes

Os yw nifer y partneriaid yn wahanol i'r nifer sydd wedi'i nodi ar eich rhan, rhowch y nifer cywir. Dylech gywiro'r gan ddefnyddio'r opsiwn Rheoli Unigolion o dan y tab Manylion CRN ar eich cyfrif RPW Ar-lein ar ôl cyflwyno'ch SAF a rhoi'r manylion trwy'ch tab Negeseuon os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Rhaid ateb y ddau gwestiwn sy'n weddill fel y dangosir yn y sgrin lun uchod yn ôl y gofyn. Os mai 'Ydy / Oes' yw'ch ateb i'r naill neu'r llall, atebwch y cwestiynau ychwanegol a rhoi'r manylion yn y blychau testun fydd yn ymddangos, fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


Nifer y partneriaid yn y busnes: 1

Os ydy'r uchod yn anghywir, rhowch y nifer cywir o bartneriaid sydd yn y busnes.

A yw strwythur y busnes hwn wedi newid ers **15 Mai 2025**? * Ydy / Nac ydy

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau) *

0 / 255

Dyddiad ffurfio'r busnes. 30/06/1992

Os yw'r uchod yn anghywir, os nad oes dyddiad neu os gwelwch 'Anhysbys', nodwch y dyddiad cywir, neu, os ffurfiwyd y busnes cyn 30 Mehefin 1992, ticiwch y bocs.

Dyddiad Ffurfio'ch Busnes (dd/mm/bbbb): dd/mm/bbbb

Cafodd y busnes ei ffurfio cyn 30 Mehefin 1992.

A oes gennych fuddiannau newydd mewn busnesau amaethyddol sydd heb eu dilysu gan Lywodraeth Cymru ers **15 Mai 2025**? * Oes / Nac oes

Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau) *

0 / 255


Byddwn wedi ateb y cwestiwn 'Dyddiad ffurfio'ch busnes' ar eich rhan ar sail yr wybodaeth sydd gennym amdanoch. Os byddwn wedi rhoi 'Anhysbys' neu os yw'r dyddiad yn anghywir neu'n wag, rhaid ei gywiro naill ai trwy roi'r dyddiad cywir neu trwy dicio'r blwch 'Cyn 30 Mehefin 1992' os yw'n gymwys.

Rhaid rhoi manylion unrhyw newidiadau mawr i'ch busnes (e.e. partneriaid newydd) trwy lythyr wedi'i arwyddo gan yr holl bartneriaid.

Yn ôl i'r cynnwys


## Cynlluniau Gwarant Fferm

Os nad ydych yn aelod o unrhyw Gynllun Gwarant Fferm, hwn fydd yr unig gwestiwn yn yr adran hon y bydd gofyn ichi ei ateb fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Os ydych yn aelod o Gynllun Gwarant Fferm, bydd angen ichi roi rhagor o fanylion fel y dangosir yn y sgrin lun isod. Os nad yw enw'ch cynllun ar y rhestr opsiynau, dewiswch 'Arall' a nodi enw'r Cynllun Gwarant Fferm yn y golofn ganol.

Cewch nodi manylion hyd at dri Chynllun Gwarant Fferm. Os ydych yn aelod o fwy na thri, rhowch eu manylion trwy dab Negeseuon RPW Ar-lein.





[Yn ôl i'r cynnwys](#)

**Ffermwr Actif**


Os nad ydych wedi hawlio BPS, Cymorth Organig a/neu nid oes gennych Gontract a/neu Ddyfarniad Grant Cynllun Troi’n Organig ni fydd angen ichi ateb unrhyw gwestiynau yn yr adran hon ac fe welwch yn y sgrin lun canlynol. (Os mai ’ch bwriad oedd hawlio BPS, Cymorth Organig a/neu Cynllun Troi’n Organig - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, ewch yn ôl i’r adran ‘Hawlio a Hawliau’ i gywiro hyn.)

Rhaid i chi hefyd lenwi’r adran hon er mwyn cydymffurfio â'ch gofynion cytundebol o dan y Cynllun Troi’n Organig ar gyfer contractau cyn 2026.


Ffermwr Actif | Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Nesaf

Nid oes cwestiynau ichi eu hateb yn yr adran hon gan nad ydych wedi ticio i hawlio "BPS 2026", "Cymorth Organig" neu nid oes gennych "Gontract Cynllun Troi’n Organig".

Fel arall, fe welwch y sgrin lun canlynol a rhaid ateb yr holl gwestiynau.


Ffermwr Actif | Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Rhaid llenwi'r adran hon os ydych yn hawlio taliad o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol (BPS); neu hawlio taliad o dan Cymorth Organig.

Rhaid i chi hefyd lenwi'r adran hon er mwyn cydymffurfio â'ch gofynion cytundebol o dan y Cynllun Troi’n Organig.

| | | |
|---|---|---|
| Ydy'r busnes yn cynhyrchu, magu neu'n tyfu cynnyrch amaethyddol? * | Ydy | Nac ydy |
| Ydy'r busnes yn cadw'r daliad mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori? * | Ydy | Nac ydy |
| Ydy'ch tir amaethyddol yn cynnwys tir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori (h.y. twyni tywod neu forfeydd heli)? Help * | Ydy | Nac ydy |


Os mai ‘Ydw’ yw ‘ch ateb i:

- Ydy’r busnes yn cynhyrchu, magu neu’n tyfu cynnyrch amaethyddol?

neu

- Ydy’r busnes yn cadw’r daliad mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a’i bori?

ac nad ydych yn datgan unrhyw anifeiliaid neu gnydau âr/parhaol, caiff cwestiynau eu dangos ichi eu hateb fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


| | | |
|---|---|---|
| Ydy'r busnes yn cynhyrchu, magu neu'n tyfu cynnyrch amaethyddol? * | Ydy | Nac ydy |
| Ydy'r busnes yn cynhyrchu ac yn gwerthu gwair, gwywair neu silwair o'r fferm? * | Ydy | Nac ydy |
| A oes gan y busnes anifeiliaid ar dac yn ystod y flwyddyn neu oddi ar y fferm ar gyfer eu pori dros y gaeaf? * | Oes | Nac oes |
| Ydy'r busnes yn cadw'r daliad mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori? * | Ydy | Nac ydy |
| Ydy'r busnes yn rheoli chwyn goresgynnol estron fel llysiau'r gingroen, tail tafol, tafol crych a phrysgwydd ar y tir? * (Mae hyn yn cynnwys defnyddio plaladdwyr yn ogystal â chadw'r tir mewn cyflwr addas ar gyfer ei ffermio trwy ddulliau cyffredin, fel llyfnu, tocio, rholio ac ati). | Ydy | Nac ydy |
| Ydy'r busnes yn gwneud yn siwr bod gan y tir ffiniau cadw stoc a dŵr ar gyfer y stoc? * | Ydy | Nac ydy |

**Pwysig:** ni fydd y cwestiynau hyn yn ymddangos tan ichi gwblhau adrannau eraill gan na fyddwn yn gwybod a fydd angen ichi eu hateb tan ichi ateb cwestiynau'r adrannau eraill hynny.


Os oes gennych dir sy'n cadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin neu ei bori (h.y. twyni tywod neu forfeydd heli), rhaid ichi ateb y cwestiynau ychwanegol y gwelwch chi am y tir hwn fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Yng Nghymru, dyma dir sy'n naturiol gynhyrchiol ac yn addas ar gyfer gweithgareddau ffermio heb fod angen cynnal gweithgareddau ffermio arno.  (Os ydym wedi nodi'r tiroedd hyn ar y parseli tir ar eich SAF, fe welwch eu maint yn yr adran 'Manylion Parseli Tir'.)  Os mai 'Ydy/Ydw' yw 'ch ateb i'r cwestiynau am Unedau Da Byw neu chwyn goresgynnol, rhaid darparu tystiolaeth eich bod yn bodloni'r amodau hyn.

| | | |
|---|---|---|
| Ydy'ch tir amaethyddol yn cynnwys tir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori (h.y. twyni tywod neu forfeydd heli)? Help * | (●) Ydy | ( ) Nac ydy |
| Ydy dros 50% o'ch tir amaethyddol yn dir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori? * | ( ) Ydy | ( ) Nac ydy |
| Ydy'r tir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori yn cael ei bori ar hyd y flwyddyn galendr, gydag isafswm cyfartalog o 0.01 - 0.05 o Unedau Da Byw fesul hectar? * | ( ) Ydy | ( ) Nac ydy |
| Ydych chi'n rheoli'r chwyn a phrysgwydd estron goresgynnol ar dir sy'n cael ei gadw'n naturiol mewn cyflwr addas ar gyfer ei drin a'i bori? * | ( ) Ydw | ( ) Nac ydw |


[Yn ôl i'r cynnwys](#)

## Manylion Ffermwyr Ifanc y BPS


Os nad ydych wedi hawlio Taliad Ffermwyr Ifanc y BPS, ni fydd angen ichi ateb unrhyw gwestiynau yn yr adran hon a bydd y sgrin lun canlynol yn ymddangos. (Os mai ’ch bwriad oedd ei hawlio amdano, cewch fynd yn ôl i’r adran ‘Hawlio a Hawliau’ i’w gywiro.)




Os ydych wedi gwneud cais llwyddiannus i’r Gronfa Genedlaethol fel Ffermwr Ifanc o’r blaen ac nad yw’ch manylion wedi newid, gallwch gadarnhau hynny fel y dangosir yn y sgrin lun isod ac ni fydd angen ichi ateb rhagor o gwestiynau Ffermwyr Ifanc.





Os yw’ch manylion wedi newid, bydd gofyn ichi lenwi’r adran ‘Manylion Ffermwyr Ifanc BPS’.





Bydd gofyn ichi gadarnhau strwythur y busnes (h.y. Unig Fasnachwr, Partneriaeth neu Berson Cyfreithiol (e.e. Cwmni Cyfyngedig)) fel y dangosir yn y sgrin lun uchod. Bydd y cwestiynau a fydd wedyn yn ymddangos yn dibynnu ar eich atebion a strwythur y busnes.

Os ydych yn unig fasnachwr, rhaid ateb y cwestiynau a ddangosir yn y sgrin lun isod:





ac os ydych yn Bartneriaeth neu'n Berson Cyfreithiol, rhaid rhoi rhagor o fanylion fel y dangosir yn y sgrin lun isod.





Yn ôl i'r cynnwys

## Lefelau Stocio

Os nad oes unrhyw anifeiliaid, sydd naill ai’n eiddo ichi neu i bobl eraill, wedi bod ar eich tir ar unrhyw adeg yn 2026, neu os na fydd unrhyw anifeiliaid arno ychwaith yn 2026, dyma’r unig gwestiwn mae angen ichi ei ateb yn yr adran hon fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


Lefelau Stocio
Yn ôl
Safio
Nesaf
Rhaid ateb pob eitem sydd â *.
Yn 2026 a oedd neu a fydd anifeiliaid (un ai'n eiddo i chi neu i rywun arall) ar eich tir? *
Oes
Nac oes


Os oes gennych anifeiliaid sy’n eiddo ichi neu i rywun arall, ar eich tir ar ddiwrnod llenwi’r SAF, rhaid ichi nodi nifer yr anifeiliaid ym mhob categori trwy ddewis yr ystod fwyaf priodol, gan ddilyn yr enghraifft a ddangosir yn y sgrin lun isod.  (Nid oes angen ichi eu llenwi os nad oes gennych anifeiliaid sy’n perthyn i’r categori hwnnw.)


Lefelau Stocio
Yn ôl
Safio
Nesaf
Rhaid ateb pob eitem sydd â *.
Yn 2026 a oedd neu a fydd anifeiliaid (un ai'n eiddo i chi neu i rywun arall) ar eich tir? *
Oes
Nac oes
**Nodwch faint o anifeiliaid sydd gennych ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol.**
**Godro:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**
**Godro:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **24 mis** oed neu fwy
**Eidion:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**
**Eidion:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **24 mis** oed neu fwy
Gwartheg stôr/pesgi **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**
Gwartheg stôr/pesgi **24 mis** oed neu fwy
Defaid dros **6 mis** oed
Ceirw dros **6 mis** oed
Moch dan do/allan (heb gynnwys perchyll heb eu diddyfnu)
Geifr dros **6 mis** oed
Ceffylau dros **6 mis** oed
Dofednod dan do/allan (amcangyfrif)
Eraill *
Oes
Nac oes
Nid oes anifeiliaid ar fy nhir heddiw

Rhaid dweud a oes gennych anifeiliaid ‘Eraill’ ac os ‘Oes’, rhoi eu manylion fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


Eraill *
Oes
Nac oes
Nodwch y manylion yma (dim mwy na 255 o nodau) *
1 asyn
6/255

Os oes unrhyw anifeiliaid, sydd naill ai'n eiddo ichi neu i bobl eraill, wedi bod ar eich tir ar unrhyw adeg yn 2026, ond nad oes unrhyw anifeiliaid ar eich tir ar y diwrnod y byddwch yn llenwi'r SAF, rhaid ichi roi tic yn y blwch 'Nid oes unrhyw anifeiliaid ar fy nhir heddiw' fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


Lefelau Stocio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Yn 2026 a oedd neu a fydd anifeiliaid (un ai'n eiddo i chi neu i rywun arall) ar eich tir? * — Oes (selected) / Nac oes

**Nodwch faint o anifeiliaid sydd gennych ar eich tir heddiw ym mhob categori perthnasol.**

**Godro:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**

**Godro:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **24 mis** oed neu fwy

**Eidion:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**

**Eidion:** buchod, teirw a threisiedi/heffrod cadw **24 mis** oed neu fwy

Gwartheg stôr/pesgi **6 mis** oed neu fwy ond llai na **24 mis**

Gwartheg stôr/pesgi **24 mis** oed neu fwy

Defaid dros **6 mis** oed

Ceirw dros **6 mis** oed

Moch dan do/allan (heb gynnwys perchyll heb eu diddyfnu)

Geifr dros **6 mis** oed

Ceffylau dros **6 mis** oed

Dofednod dan do/allan (amcangyfrif)


Eraill * — Oes / Nac oes (selected)

☐ Nid oes anifeiliaid ar fy nhir heddiw

Yn ôl i'r cynnwys

## Trawsgydymffurfio

Rhaid ichi ateb pob cwestiwn yn yr adran hon fel y dangosir yn y sgrin lun isod i ddangos y gweithgarwch ar eich fferm o 1 Ionawr 2026 i 31 Rhagfyr 2026.


Trawsgydymffurfio

Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru os bydd yr atebion i'r cwestiynau hyn yn newid ar ôl cyflwyno'r cais.

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

**Dywedwch 'Ydw' neu 'Nac ydw' am y gosodiadau isod i ddangos y gweithgarwch ar eich fferm rhwng 1 Ionawr 2026 a 31 Rhagfyr 2026. Am ragor o wybodaeth, darllenwch yr wybodaeth am Drawsgydymffurfio.**

| | | |
|---|---|---|
| Rwyf wedi neu'n bwriadu defnyddio cynhyrchion diogelu planhigion fel plaladdwyr, chwynladdwyr, pryfladdwyr, ffwngladdwyr (gan gynnwys gorchudd hadau), molysgladdwyr neu reoleiddwyr twf planhigion ar fy nhir. * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n llosgi grug a / neu borfa * | Ydw | Nac ydw |
| Mae gen i sofl cnwd wedi'i gynaeafu neu dir sydd wedi'i hau â chnwd gorchudd dros dro, dros y gaeaf * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n cadw gwartheg neu foch neu geffylau allan dros y gaeaf ar fy nhir * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n dipio a / neu'n rhoi cawod i ddefaid * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n gwerthu cynnyrch wedi'i bacio yn syth o'm fferm * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd anifeiliaid o'm fferm (heblaw gwair a silwair) * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n codi dŵr er mwyn dyfrhau * | Ydw | Nac ydw |
| Mae gennyf storfa slyri ar fy fferm yr wyf yn ei defnyddio * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n gwneud ac yn storio silwair pwll / claddfa silwair ar fy fferm * | Ydw | Nac ydw |
| Rwy'n prynu slyri, tail buarth, tail ieir neu unrhyw wrtaith organig arall gan gynhyrchwyr eraill * | Ydw | Nac ydw |

Rhaid ichi roi gwybod i Lywodraeth Cymru os bydd eich atebion yn newid ar ôl ichi gyflwyno'ch SAF.

Rhaid i bob cwsmer sy'n cyflwyno SAF gadw at y rheolau Trawsgydymffurfio.  Mae'r safonau Trawsgydymffurfio'n effeithio ar bob tir amaethyddol mewn busnes amaethyddol. Rhaid ichi felly gadw'ch tir mewn Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da a chadw at nifer o Ofynion Rheoli Statudol.  O 2021 ymlaen, mae'r Glaswelltir Parhaol Amgylcheddol-Sensitif wedi ei symud i drawsgydymffurfio. Os hoffech fwy o wybodaeth, cliciwch ar y ddolen 'Drawsgydymffurfio'.

**Pwysig:** Mae'r cwestiwn 'Mae gennyf storfa slyri ar fy fferm yr wyf yn ei defnyddio' yn cyfeirio at storfeydd slyri sy'n cael eu defnyddio.  Nid yw yn cynnwys ardal storio tail o'r buarth.

**Pwysig:** Mae cwestiwn newydd 'Rwy'n prynu slyri, tail buarth, tail ieir neu unrhyw wrtaith organig arall gan gynhyrchwyr eraill' wedi'i ychwanegu yn 2026.  Os ydych wedi dewis ein bod yn rhoi'r un atebion ag a gawsom gennych yn 2025 i'r cwestiynau Trawsgydymffurfio, ni chaiff y cwestiwn hwn ei ateb ar eich rhan.  Bydd gofyn i chi ateb y cwestiwn.

[Yn ôl i'r cynnwys]


## Hawliau Tir Comin

### Hawliau Tir Comin – Pori

Os nad oes gennych hawliau tir comin, ni fydd gennych unrhyw beth i'w lenwi yn yr is-adran hon a dylech glicio 'Nesaf' i fynd i'r is-adran nesaf.

**Noder:** Cynllun Cynefin Cymru – Nid yw Tir Comin yn cael ei hawlio ar SAF 2026.  Mae ffurflen hawlio ar wahân ar gael drwy RPW Ar-lein i Gymdeithasau Pori i hawlio am Gynllun Cynefin Cymru – Tir Comin.

Os gwnaethoch chi ddatgan hawliau pori tir comin ar eich SAF 2025, byddwn wedi llenwi'r rhan hon o'r ffurflen ar eich rhan fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth hon yn gywir.  Os ydy Statws eich hawliau sydd wedi'u nodi wedi newid, rhaid ei newid.  Os oes unrhyw agwedd arall ar eich hawliau wedi newid neu os nad oes gennych yr awdurdod mwyach i ddefnyddio'r hawliau hyn, rhaid dileu'r rhes rydym wedi'i llenwi ar eich rhan ac os oes angen, ychwanegu rhes newydd gyda'r manylion newydd trwy glicio'r botwm '+Ychwanegu Hawliau Pori'.  (Os ydych yn dileu rhes trwy gamgymeriad, cliciwch 'Adfer' i'w gael yn ôl.)


Hawliau Tir Comin - Pori  
Yn ôl | Safio | Nesaf

Dewiswch y tir comin yr hoffech chi hawlio taliad arno. **RHYBUDD:** Gallai arwynebedd porthiant hawliau Tir Comin amrywio o flwyddyn i flwyddyn.


+ Ychwanegu Hawliau Pori

| Enw'r Sir Gofrestu | Rhif y Comin | Rhif y Cofnod | Math o Anifail | Nifer yr Hawliau | Statws | Hawlio BPS | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | Defaid | 798 | Yn berchen arnynt | ☑ | Dilëwch |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | Defaid | 798 | Yn berchen arnynt | ☐ | Dilëwch |
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | Defaid | 52 | Yn berchen arnynt | ☑ | Dilëwch |

Os oes gennych hawliau pori tir comin newydd, rhaid eu hychwanegu at y rhes wag a welwch, neu os nad oes rhes wag, cliciwch ar '+Ychwanegu Hawliau Pori'.

Os nad ydych yn siŵr ynghylch y ffeithiau sydd eu hangen, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol sy'n gyfrifol am y 'Cofrestrau Tir Comin'.

Mae'r gwymplen 'Rhif Tir Comin' yn amrywio gan ddibynnu ar ba 'Sir Gofrestru' rydych wedi'i dewis.  Mae'n dangos pob Rhif Tir Comin y gwyddom amdano yn y sir honno.  Os oes gennych Rif Tir Comin nad yw ar y rhestr a'ch bod yn bendant bod Enw'r Sir Gofrestru a Rhif y Tir Comin yn gywir, ychwanegwch y Rhif Tir Comin.  Bydd Neges Gwybodaeth 'Does gennym ddim cofnod o'r rhif Tir Comin ar gyfer y Sir hon.  Gwnewch yn siŵr bod yr holl wybodaeth ar y llinell hon yn gywir cyn symud ymlaen.' yn ymddangos fel y dangosir yn y sgrin lun isod i'ch atgoffa i wneud yn siŵr eich bod wedi teipio'r Rhif Tir Comin yn gywir.


+ Ychwanegu Hawliau Pori

| Enw'r Sir Gofrestu | Rhif y Comin | Rhif y Cofnod | Math o Anifail | Nifer yr Hawliau | Statws | Hawlio BPS | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| [redacted] | [redacted] | [redacted] | Defaid | 150 | Yn berchen arnynt | ☑ | Dilëwch |


- Does gennym ddim cofnod o'r rhif Tir Comin ar gyfer y Sir hon. Gwnewch yn siwr bod yr holl wybodaeth ar y llinell hon yn gywir cyn symud ymlaen.

**Pwysig: Gofalwch eich bod wedi ticio'r blwch 'Hawlio BPS' ar gyfer yr hawliau pori tir comin rydych am eu defnyddio i hawlio BPS. Os ydych yn dileu hawliau pori tir comin a heb ychwanegu hawliau neu heb dicio blwch/blychau 'Hawlio BPS', byddwn yn cymryd nad ydych am hawlio ar eich tir comin eleni.**


**Pwysig**: gallai arwynebedd porthiant hawliau pori Tir Comin amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych ddigon o dir ar gyfer eich Hawliau BPS.

### Hawliau Tir Comin – Eraill

Os mai'r unig hawliau pori tir comin sydd gennych yw hawliau pori cofrestredig, hwn fydd yr unig gwestiwn yn yr adran hon y bydd gofyn ichi ei ateb fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Os oes gennych hawl i bori tir comin trwy hawliau heblaw hawliau pori cofrestredig, rhowch y manylion yn y blwch testun a ddangosir yn y sgrin lun isod. **Rhaid i'ch manylion ddangos a ydych am ddefnyddio'r tir comin i hawlio taliad BPS.**




[Yn ôl i'r cynnwys]

**Data Caeau**

**Cyflwyniad**

Mae'n bwysig eich bod yn dilyn yn ofalus y canllawiau ar gyfer llenwi'r adran hon yn eich SAF ac yn darllen *'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'.*

**Dylech gadarnhau bod unrhyw newidiadau a wnaed yn sgil archwiliad tir a gynhaliwyd yn 2025 wedi'u gwneud i'ch SAF. Byddech wedi cael y manylion yn IACS 7a.**

Gofalwch eich bod yn newid eich SAF i gynnwys yr ymateb rydych wedi'i gael i unrhyw apêl rydych wedi'i wneud.

**Manylion sydd wedi'u llenwi ar eich rhan**

Byddwn wedi nodi ar eich SAF ar eich rhan gymaint o wybodaeth am eich caeau â phosibl, gan gynnwys manylion Nodweddion Parhaol. Bydd hyn yn dibynnu a fyddwn wedi dilysu'ch datganiad yn y flwyddyn cynt neu wedi cynnal asesiad mapio o'r cae.

Peidiwch â newid y manylion er mwyn adlewyrchu yn unig yr hyn gafodd ei ddatgan yn 2025 gan y gallai'r wybodaeth honno fod wedi'i diweddaru wrth brosesu'ch SAF 2025 neu yn sgil diweddaru'r mapiau.

Gwnaeth ymarfer Cadarnhau Data y Cynllun Ffermio Cynaliadwy bennu arwynebeddau o 0.01ha neu uwch lle and oedd didyniad am goed/coetir wedi'i nodi fel nodwedd parhaol. Fe'ch cynghorir i wirio bod pob coeden/coetir 0.01ha neu uwch ar eich daliad wedi'i ddatgan. Os nad ydynt dylech wneud yr addasiadau angenrheidiol ar eich datganiad SAF 2026.

Chi sy'n gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr holl fanylion rydych yn eu datgan yn yr adran hon yn gywir a'u bod yn adlewyrchu sefyllfa'r holl dir sydd o dan eich rheolaeth lwyr ar **15 Mai 2026.** Mae tir 'o dan eich rheolaeth':

- os mai chi sy'n berchen arno
- os ydych yn denant â 'meddiannaeth egsgliwsif' o dan naill ai Denantiaeth Busnes Fferm o dan Ddeddf Tenantiaethau 1995 neu denantiaeth lawn o dan y Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986
- os ydych yn denant â thenantiaeth lafar â'r un lefel o reolaeth â'r uchod
- os ydych wedi caniatáu trwydded o dan drefniant trwyddedu penodol ar gyfer pori, tyfu cnwd neu ladd gwair/silwair dros gyfnod penodedig a chyfyngedig o amser o fewn y flwyddyn ond eich bod wedi cadw rheolaeth ar y tir.

Peidiwch â datgan tir rydych yn berchen arno ond yn ei rentu allan (gan nad yw'r tir hwn o dan eich Rheolaeth lwyr. Y ffermwr sy'n ei rentu ddylai ddatgan y tir hwnnw).

**Manylion tir newydd**

Os oes tir sydd heb ei restru a fydd o dan eich rheolaeth ar 15 Mai 2026, rhaid ei ychwanegu. Er enghraifft, tir newydd ei brynu neu goetir/draciau nad ydych wedi'u datgan ar eich SAF o'r blaen. Gallech gael cosb ariannol am beidio â datgan yr holl dir sydd o dan eich rheolaeth lwyr.

**Newidiadau i'r tir**

Rhaid llenwi cais '*Rheoli fy Nhir*', gan ddefnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein, os nad yw'r tir wedi'i gofrestru gydag IACS, os ydych wedi newid ffin, neu hollti neu uno caeau neu ddileu nodwedd barhaol.  Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i gaeau ac os ydych wedi trosglwyddo tir o fewn 30 diwrnod ar ôl y newid.

Gallwch ychwanegu neu newid Nodweddion Parhaol ar y SAF.  Gallwch nodi dyddiad y newid, ac os bydd y newid yn digwydd o fewn 30 niwrnod ar ôl cyflwyno'r SAF, ni fydd angen 'Rheoli fy Nhir'.

Os ydych wedi dod yn gyfrifol am dir, dylai'r perchennog neu'r tenant blaenorol allu dweud wrthych a ydy'r tir eisoes wedi'i gofrestru gyda Llywodraeth Cymru.

**Pwysig**: Dilëwch gaeau:

- os ydych wedi rhoi'r gorau i rentu tir
- os ydych wedi gwerthu'r tir
- os ydych wedi rhentu tir allan o dan Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986, Tenantiaeth Busnes Fferm neu Denantiaeth Lafar
- os ydy manylion y parsel tir wedi newid trwy uno neu rannu cae
- os ydych wedi rhoi manylion anghywir am gae.

**Cwsmeriaid yng ngwledydd eraill Prydain**


Dim ond manylion tir yng Nghymru fydd yn cael eu nodi ar eich rhan yn yr adran hon. Dylech nodi manylion caeau mewn gwledydd eraill ar ffurflen y wlad dan sylw.

Yn ôl i'r cynnwys

## Rhestr Data Caeau

Mae'r is-adran hon yn rhestru holl gaeau eich busnes fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

Mae'r system yn gallu chwilio am gaeau penodol gan ddefnyddio Cyfeirnod y Ddalen, Rhif y Cae a / neu Enw'r Cae.




Cewch ychwanegu neu ddileu caeau yn yr is-adran hon, ond chewch chi ddim gwneud unrhyw newidiadau eraill. Os ydych am newid manylion eraill, cewch wneud trwy agor y cae – gwnewch hynny trwy glicio 'Agor'.

Am esboniad ynghylch pob eitem yn yr is-adran hon, darllenwch y tudalennau a ganlyn.

Gallwch ddewis opsiynau gwahanol ar gyfer y sgrin hon fel a ganlyn:

- Dangos / Cuddio Enwau Caeau
- Dangos y BPS, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a Chynlluniau Eraill

neu

- Dangos BPS yn unig

neu

- Dangos Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig yn unig


neu

- Dangos Cynlluniau Eraill yn unig.

Gallai hyn fod yn ddefnyddiol os ydych yn defnyddio dyfais â sgrin fach.


Bydd Arwynebedd BPS a hawlir, ticiau wrth Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig, ticiau wrth Cynlluniau Eraill, statws y Brasfap a'r faner 'Dod yn ôl' yn ymddangos wrth gae pan fyddwch yn agor Manylion Parseli Tir y cae hwnnw.

Os hoffech weld map o’ch tir, cliciwch ar y botwm Gweld Map wrth droed y sgrin fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Manylion Parseli Tir




Efallai na welwch yr isod os nad ydyn nhw'n berthnasol i'ch cais chi.

### Help ar gyfer y Dudalen hon

Bydd y botwm hwn yn agor ffenest Porwr newydd, i roi help ichi gyda'r dudalen hon yn unig.


### Yn ôl i'r rhestr


Bydd y botwm hwn a ddangosir yn y sgrin lun isod yn mynd â chi yn ôl i'r 'Rhestr Data Caeau'.




### Dileu Parsel

Defnyddiwch y botwm a ddangosir yn y sgrin lun cyntaf isod i ddileu'r parsel hwn o'ch datganiad.  Gallwch adfer cae rydych wedi'i ddileu trwy ddefnyddio'r botwm 'Adfer Cae' a ddangosir yn yr ail sgrin lun isod.



**Cyfeirnod y Ddalen / Rhif y Cae**

Os ydym wedi llenwi manylion y cae ar eich rhan, ni chewch eu newid.

**Ychwanegu Cae**

Os ydych yn rhannu neu’n uno caeau neu’n ychwanegu cae newydd, rhaid clicio ar y botwm ‘+Ychwanegu Cae’. Yn y ffenest a ddangosir yn y sgrin lun isod, nodwch Gyfeirnod y Ddalen a Rhif y Cae a chlicio ‘Iawn’. Yna gallwch nodi manylion y cae newydd. Yna, rhaid dileu’r cae gwreiddiol gafodd ei nodi ar eich rhan neu ei newid yn ôl y gofyn. Rhaid cyflwyno ffurflen ‘Rheoli fy Nhir’ ar gyfer trosglwyddo tir, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny.

Pan fyddwch yn ychwanegu cae, rhaid clicio ‘Safio’ cyn mynd i’r cae nesaf.




**Enw Cae**

Byddwn wedi nodi hwn ar eich rhan os gwnaethoch nodi Enw Cae ar eich SAF yn 2025. Cewch ychwanegu ato a’i newid yn ôl yr angen.

**Maint y Cae**

Nid oes modd newid hwn. Dyma faint y cae cyfan yn ôl yr wybodaeth a oedd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2026. Os ydy maint y cae wedi newid, rhaid cyflwyno ‘Rheoli fy Nhir’ os nad ydych eisoes wedi gwneud.

**Dod yn ôl**

Dylech dicio’r blwch hwn os ydych am ddod yn ôl i’r cae hwn rywdro yn y dyfodol.

**Blwch hawlio Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig**

Rhaid ichi dicio’r blwch wrth bob cae sydd wedi’i gynnwys mewn contract er mwyn hawlio taliad.

**BPS** (Bydd gwybodaeth am y BPS ond yn ymddangos os ydych wedi hawlio BPS yn yr adran ‘Hawlio a Hawliau’.)

**Arwynebedd Cymwys Mwyaf**

Dyma’r Arwynebedd Mwyaf sy’n gymwys am y BPS, ar ôl tynnu’r darnau nad ydyn nhw’n gymwys am y BPS o gyfanswm maint y cae fel ag yr oedd ym mis Chwefror 2026 fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

**Arwynebedd wedi'i hawlio**

Dyma'r arwynebedd rydych wedi hawlio BPS arno yn y cae.  Mae'n llenwi'n awtomatig wrth ichi lenwi'r blwch/blychau hawlio yn y caeau unigol.

| BPS | |
|---|---|
| Arwynebedd Cymwys Mwyaf Help | Arwynebedd a hawlir |
| 1.65 | 1.65 |

**Blwch hawlio Cynlluniau Eraill**

Bydd gwybodaeth ond yn ymddangos os ydych wedi hawlio Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cymorth Organig, WCM a / neu WCP yn yr adran 'Hawlio a Hawliau'.

Byddwn yn llenwi ymlaen llaw a thicio ar lefel parsel os yw ein cofnodion yn dangos bod gennych gontract a / neu ddyfarniad grant o dan y Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Grant Creu Coetir a / neu Grantiau Bach – Creu Coetir.

Os nad oes gennych ddyfarniad grant a/neu gontract bellach ar gyfer unrhyw gynlluniau rydym wedi'u ticio, rhaid dileu'r tic.

Os oes gennych ddyfarniad grant a/neu gontract ar gyfer cynlluniau nad ydym wedi rhoi tic wrthyn nhw a'ch bod am hawlio'r cynlluniau hynny, **rhaid** rhoi tic wrth y blwch/blychau hawlio priodol.  Wrth wneud hynny, fe welwch neges gwybodaeth fel yr un a ddangosir yn y sgrin lun isod i wneud yn siŵr nad ydych wedi ticio'r blwch hawlio trwy ddamwain.

**Pwysig**: Os ydych wedi rhoi tic yn y blwch hawlio Cymorth Organig yn yr Adran Hawlio, **rhaid** rhoi tic hawlio yn y blwch hawlio Cymorth Organig (OS) wrth bob parsel cymwys rydych am hawlio taliad arno.

| | Cynlluniau Eraill | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cynllun Troi'n Organig | Cymorth Organig | WCM | WCP |
| Hawlio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Tir sydd wedi'i Gadw'n Naturiol (h.y. twyni tywod neu forfeydd heli)**

Bydd hwn ond yn ymddangos os oes gennych dwyni tywod a'r morfeydd heli rydym wedi'u mapio ar gyfer y cae hwn fel Tir wedi'i Gadw'n Naturiol fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

Os oes mwy na hanner eich tir amaethyddol yn dir sydd wedi'i gadw'n naturiol, gallai hynny effeithio ar eich statws fel Ffermwr Actif o ran cael taliad BPS, Cymorth Organig a/neu Troi'n Organig  (Gweler *'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'* am fanylion.)

| BPS | | |
|---|---|---|
| Arwynebedd Cymwys Mwyaf Help | Arwynebedd a hawlir | Tir wedi'i gadw'n naturiol |
| 70.01 | 0.00 | 5.45 |

**Cnwd**

Mae hwn yn cynnwys y codau defnyddio tir ar gyfer cnydau a nodweddion heblaw cnydau. Gweler *'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'* am restr lawn o'r codau cnydau.

Bydd y codau cnydau wedi'u llenwi ar eich rhan lle medrwn. Cywirwch wybodaeth anghywir ac ychwanegu cnydau sydd ar goll, gan ddefnyddio'r rhestr yn y gwymplen.

**Tyfu er mwyn yr Amgylchedd**: Dylech nodi cnydau sy'n cael eu plannu ar gyfer y Cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn yr Adran Data Caeau gan ddefnyddio cod perthnasol y cnwd sy'n cael ei blannu. Rhestrir y codau yn ADRAN 2: CODAU DATGAN A DEFNYDDIO TIR.

**Pwysig**: ar gyfer yr opsiwn Gwyndwn Cymysg, dylech ddefnyddio cod y prif gnwd yn y cymysgedd hadau.

**Codau cnydau nodweddion y dirwedd a thir anghymwys**

Mae'n bwysig eich bod yn asesu'r darnau hyn o dir ar eich daliad yn unol â'r esboniad yn Atodiad 1 *'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'* a datgan y codau cnydau priodol. O beidio â gwneud, mae perygl ichi orddatgan yr arwynebedd cymwys ar gyfer 2026 a gallai hynny arwain at eich cosbi.

Os gwelon ni dir anghymwys ar eich daliad wrth ddilysu cais 2025, byddwn wedi llenwi hyn ar eich SAF ar eich rhan.

**Codau ar gyfer porfa**

Ar gyfer tir sydd wedi bod o dan borfa am 5 mlynedd neu fwy, defnyddiwch GR2. Ar gyfer tir sydd wedi bod o dan borfa am lai na 5 mlynedd, defnyddiwch GR1. Er mwyn cael troi tir GR2 yn GR1, bydd y tir wedi bod yn rhan o gylchdro cnydau yn y 5 mlynedd diwethaf. Os cafodd tir a fu o dan borfa am fwy na 5 mlynedd ei ailhau â phorfa yn y 12 mis diwethaf, defnyddiwch y cod GR8.

**Arwynebedd**

Byddwn yn llenwi'r golofn hon ar eich rhan os medrwn. Cywirwch wybodaeth anghywir ac ychwanegu arwynebeddau sydd ar goll.

Mae'n bwysig wrth lenwi'ch SAF eich bod yn cadarnhau fod y codau cnydau / defnyddio tir a'r arwynebeddau ar eich cais i gyd yn adlewyrchu'r sefyllfa fel ag y mae ar eich daliad.

Os nad ydym wedi nodi'r arwynebedd cywir neu os yw ar goll, cofnodwch arwynebedd y cae mewn hectarau hyd at 2 le degol.

**Hawlio BPS**

Fe welwch y blwch Hawlio BPS os ydy'r cnwd rydych wedi'i ddatgan yn gymwys am BPS a'ch bod wedi dweud eich bod am hawlio BPS yn yr adran 'Hawlio a Hawliau'. Rhaid ticio'r blwch hwn os ydych am hawlio taliad Cynllun y Taliad Sylfaenol / Ffermwr Ifanc y BPS ar gyfer y cae hwn.

**Deiliadaeth**

Byddwn yn llenwi'r rhan hon ar eich rhan ichi lle medrwn. Cywirwch wybodaeth anghywir ac ychwanegu deiliadaeth sydd ar goll.

Dyma'r codau Deiliadaeth:

| | |
|---|---|
| **A** | Tenantiaeth Amaethyddol Lawn |
| **B** | Tenantiaeth Busnes Fferm |
| **C** | Tenantiaeth Lafar |
| **D** | Trwydded Bori |
| **O** | Yn eiddo ichi |

Os ydych wedi rhentu tir allan, peidiwch â'i ddatgan ar eich SAF os nad yw o dan eich Rheolaeth lwyr.

- Os ydych yn dal yn berchen ar y tir a dim yn ei rentu allan ar 15/05/2026 h.y. ei fod o dan eich rheolaeth lwyr, newidiwch y cod deiliadaeth i **O**.
- Os ydych yn rhentu'r tir allan ar drwydded bori tymor byr sy'n cynnwys 15/05/2026 ond ei fod yn dal o dan eich rheolaeth lwyr, newidiwch y cod deiliadaeth i **O**.

Os ydy'ch tir o dan drwydded bori tymor byr ar 15/05/2026 ac nad yw'r tir o dan eich rheolaeth lwyr h.y. nid oes gennych reolaeth ar y tir, ni ddylech ei nodi yn eich SAF gan nad yw'n rhan o'ch daliad.

**Dyddiad Newid Nodwedd**

Os ydych yn ychwanegu neu'n newid Nodwedd Barhaol, bydd angen ichi nodi'r 'Dyddiad Newid Nodwedd'.

**Ail Gnwd**

Rhowch god cnwd/defnyddio tir yma os ydych yn hawlio :

- BPS a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae ar ôl 15 Mai
- Tyfu dros yr Amgylchedd a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae ar ôl 15 Mai
- Cynllun Troi'n Organig a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae ar ôl 15 Mai
- Cymorth Organig a'ch bod yn plannu cnwd gwahanol yn y cae yn y cae ar ôl 15 Mai.

**Mis Plannu**

Os ydych chi'n datgan Ail Gnwd, rhaid ichi ddewis Mis Plannu priodol o restr y gwymplen.

**Ychwanegu Cnwd**

Pwyswch ar y botwm hwn os oes angen ychwanegu rhes arall ar gyfer y cae i gofnodi cnwd arall.

**Dilëwch (neu Adfer)**


Pwyswch y botwm hwn i dynnu’r cnwd hwn o’ch datganiad.  Os hoffech dynnu’r cae cyfan o’ch datganiad, defnyddiwch y botwm ‘Dileu Cae’.  Os ydych wedi dileu cnwd gafodd ei roi ar y tabl ar eich rhan ond eich bod am ei roi yn ôl, pwyswch y botwm ‘Adfer’.

**Brasfap**

Os ydych yn ychwanegu neu’n newid codau cnydau a / neu arwynebedd ym manylion eich parseli tir, gofynnir ichi gyflwyno brasfap fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




O dan rai amgylchiadau, gofynnir am frasfapiau o barseli tir y cafodd Archwiliad Tir 2025 ei gynnal arnynt.  Os yw’r datganiad tir yn cyd-fynd ag Archwiliad Tir 2025 ac nad oes unrhyw newid wedi’i wneud i’r parsel ers cynnal yr archwiliad, gallwch roi tic yn y blwch ‘Newid oherwydd archwiliad’ ar y parsel tir yn yr adran Data Caeau fel y dangosir yn y sgrin lun isod.





Trwy roi tic yn y blwch hwn, ni fydd angen ichi gyflwyno brasfap o’r parsel fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Byddwn yn defnyddio manylion Archwiliad 2025.  Os oes unrhyw beth yn parsel wedi newid ers yr archwiliad h.y. newid i’r nodweddion parhaol ac ati, yna bydd angen ichi ddarparu brasfap, felly peidiwch â rhoi tic yn y blwch ‘Newid oherwydd archwiliad’.




Os yw’r ffiniau wedi newid ers yr archwiliad, bydd angen ichi gyflwyno cais ‘Rheoli fy Nhir’.  Gallwch wneud hynny ar eich cyfrif RPW Ar-lein os nad ydych eisoes wedi gwneud.

I gyflwyno brasfap, cliciwch ar y botwm Agor Brasfap.  Bydd map y cae dan sylw’n ymddangos gyda’r arwynebedd a chodau’r cnydau.

Pan fyddwch yn y map, defnyddiwch y botwm ‘Gweld Opsiynau’ i ddangos haenau gwahanol e.e. llun o’r awyr fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Gallwch ddefnyddio’r ‘Brasfap’ i:

- ddangos lleoliad Nodwedd Barhaol
- tynnu llinellau i ddangos y ffin rhwng cnydau
- defnyddio’r botwm ‘Ychwanegu marciwr’ i ddangos ym mha ran o’r cae y mae pob cnwd.

I wneud hyn, cliciwch ar ‘Braslunio’ neu ‘Linell wedi’i mesur’ ac yna tynnu siâp y Nodwedd Barhaol neu linellau i ddangos y ffin rhwng cnydau gwahanol.

Yn ôl i’r cynnwys

## Braslunio

Teclyn lluniadu â'ch llaw yw'r opsiwn Braslunio a ddangosir yn y sgrin lun isod. I'w ddefnyddio, symudwch y cyrchwr at y pwynt ar y map lle rydych am ddechrau, cliciwch â botwm chwith eich llygoden a chadw 'ch bys arno wrth ichi symud y llygoden i dynnu'r llinell neu'r siâp dan sylw. Ailadroddwch y broses ar gyfer pob llinell neu siâp rydych am ei thynnu.

(*Gall y cyfarwyddiadau hyn amrywio gan ddibynnu ar natur eich dyfais e.e. sgrin cyffwrdd neu lygoden llaw chwith*)




## Llinell wedi'i mesur

Teclyn lluniadu o bwynt i bwynt yw'r opsiwn 'Llinell wedi'i Mesur' a ddangosir yn y sgrin lun isod. I'w ddefnyddio, symudwch y cyrchwr at y pwynt ar y map lle rydych am ddechrau, cliciwch â botwm chwith eich llygoden a'i ollwng a thynnu'ch llinell gyntaf. Os hoffech estyn y llinell hon ar ongl wahanol, cliciwch a gollwng y botwm chwith unwaith eto.


Os ydych yn tynnu llinell, pan fyddwch wedi gorffen, dwbl-gliciwch fotwm chwith y llygoden i orffen y llinell. Bydd y teclyn yn dangos hyd y llinell rydych wedi'i thynnu.


Os ydych yn tynnu siâp, pan fyddwch wedi gorffen cliciwch â botwm chwith y llygoden i gwblhau'r siâp ac i orffen lluniadu. Bydd y teclyn yn dangos arwynebedd y gwrthrych rydych wedi'i dynnu.

(*Gall y cyfarwyddiadau hyn amrywio gan ddibynnu ar natur eich dyfais e.e. sgrin cyffwrdd neu lygoden llaw chwith.*)






Pwyswch ‘Dileu’ i ddileu llinellau / siapiau / marcwyr rydych wedi’u gwneud trwy gamgymeriad. I wneud hyn, cliciwch ar ‘Dileu’ ac yna ar y llinell / siâp / marciwr ar y map. Os ydych am ddileu popeth rydych wedi’i luniadu yn y cae a dechrau eto, dewiswch ‘Dileu’r Cyfan’ fel y dangosir yn y sgrin luniau isod.








Os ydych wedi tynnu siâp gan ddefnyddio’r teclyn ‘Llinell wedi’i mesur’, gallwch ddefnyddio’r botwm ‘Dewis’ i weld hyd neu arwynebedd y gwrthrych. Bydd hefyd yn rhoi’r dewis ichi allu dileu’r gwrthrych fel y dangosir yn y sgrin lun isod.







I adael sgrin y Brasfap, cliciwch ar y botwm ‘Gorffen Braslunio’ a ddangosir yn y sgrin lun isod.





Nid oes gofyn i frasfapiau fod yn fanwl gywir ond rhaid i’r arwynebeddau rydych yn eu datgan yn yr adran Data Caeau fod yn gywir.

Os oes angen brasfap arnoch ond nad ydych yn wedi cyflwyno un, bydd croes goch yn ymddangos yng ngholofn y Map yn y Rhestr Data Caeau fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




| | | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Maint y Cae | Ar'dd Cymwys Mwyaf | Wedi'i hawlio | GWCP | GCM | GCP | Cynllun Troi'n Organig | Cymorth Organig | WCM | WCP | Brasfap Help | Dod yn ôl. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 5.68 | 5.63 | 5.63 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |
| Agor | × | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.26 | 1.23 | 1.20 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | × | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 3.93 | 3.93 | 3.93 | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 3.59 | 3.56 | 3.56 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |

Ar ôl cyflwyno’r brasfap, bydd yn troi’n dic gwyrdd fel y dangosir yn y sgrin lun isod.



| | | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Maint y Cae | Ar'dd Cymwys Mwyaf | Wedi'i hawlio | GWCP | GCM | GCP | Cynllun Troi'n Organig | Cymorth Organig | WCM | WCP | Brasfap Help | Dod yn ôl. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 5.68 | 5.63 | 5.63 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |
| Agor | ! | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.26 | 1.23 | 1.20 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ✓ | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 3.93 | 3.93 | 3.93 | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 3.59 | 3.56 | 3.56 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |

Os ydych wedi ticio y ‘Newid oherwydd Archwiliad’ bydd cysylltnod gwyrdd yn ymddangos yng ngholofn Map y ‘Rhestr Data Cae’ fel a welir yn y sgrin lun isod.



| | | Cyfeirnod y Ddalen | Rhif y Cae | Enw'r Cae | Maint y Cae | Ar'dd Cymwys Mwyaf | Wedi'i hawlio | GWCP | GCM | GCP | Cynllun Troi'n Organig | Cymorth Organig | WCM | WCP | Brasfap Help | Dod yn ôl. | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 1.27 | 0.00 | 0.00 | ☑ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |
| Agor | ! | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 3.40 | 3.19 | 3.15 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | – | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 4.97 | 4.97 | 4.97 | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |
| Agor | ✓ | [redacted] | [redacted] | [redacted] | 4.24 | 4.24 | 4.24 | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☑ | ☐ | ☐ | | | Dilëwch |

**Newid tir sydd ag angen rhif cae newydd**

Rhaid gwneud cais am rif cae newydd yn ‘Rheoli fy Nhir’ ar RPW Ar-lein.

Bydd angen rhif cae newydd ar gyfer caeau sy’n perthyn i un o’r categorïau isod:

- caeau sydd heb eu cofrestru o’r blaen ar gyfer IACS

- caeau sydd wedi'u rhannu'n barhaol
- caeau sydd wedi'u cyfuno'n barhaol
- caeau sydd â ffin newydd.

Bydd '*Rheoli fy Nhir*' yn rhoi rhifau caeau ichi ar gyfer y newidiadau hyn a dylech eu defnyddio wrth lenwi SAF eleni.  Mae hynny'n golygu ychwanegu rhifau caeau newydd yn adran Data Caeau 'ch SAF a dileu unrhyw gaeau nad ydyn nhw bellach yn bodoli.


Wrth lenwi'r SAF gofalwch nad ydych yn hawlio o dan y cae newydd a'r hen gae rhag ichi gael eich cosbi'n ariannol.  Cofiwch glicio ar 'Dileu' ar y dudalen Data Caeau ar eich SAF Ar-lein i ddileu cofnodion yr hen gae.

Yn ôl i'r cynnwys

## Atodlen 6 – Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu

Os nad ydych yn hawlio Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP), ni fydd unrhyw gwestiynau yn yr adran hon ichi eu hateb fel y dangosir yn y sgrin lun isod.


Os ydych wedi nodi eich bod am wneud cais am Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP), yn yr adran Hawlio a Hawliau a bod eich statws cyfreithiol ar gyfer eich busnes yn unig fasnachwr, ni fydd cwestiynau yn yr adran hon ichi fel y dangosir yn y sgrin lun isod.




Os ydych wedi nodi eich bod am wneud cais am Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP) yn yr adran Hawlio a Hawliau, mae eich statws cyfreithiol ar gyfer eich busnes yn unrhyw beth heblaw unig fasnachwr ac mae gennych gontract a/neu Ddyfarniad Grant o dan y Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Grant Creu Coetir (WCG) a/neu'r Cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir (SGWC).  Bydd gofyn i chi gwblhau Atodlen 6 Cynefin Cymru - Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu i roi sicrwydd bod gweithdrefnau llywodraethu a gwrth-dwyll rhesymol a digonol ar waith yn y busnesau sydd wedi derbyn cyllid.

Os oes mwy nag un person yn eich sefydliad â chyfrifoldeb penodol am reoli'r arian a ddefnyddir at ddibenion o warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi’n organig neu fwy nag un person yn gyfrifol am oruchwylio'r person(au) a enwir, gallwch eu hychwanegu drwy bwyso'r botwm 'Ychwanegu Unigolyn'. Unwaith y bydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi manylion yr unigolyn ychwanegol.

Dylid defnyddio'r botwm 'Dileu'r Unigolyn' dim ond os ydych chi am ddileu'r rhes.



ATODLEN 6 - Datganiad Sicrwydd: Gweithdrefnau Gwrth-dwyll a Llywodraethu | Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Nesaf

Rhaid ateb pob eitem sydd â *.

Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, gan sicrhau eu bod yn cael eu trin ag uniondeb ac er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod pobl yng Nghymru yn gallu bod â hyder yn Llywodraeth Cymru a'r sefydliadau y mae'n eu hariannu. Mae angen sicrwydd ar swyddogion Llywodraeth Cymru bod trefniadau llywodraethu a gweithdrefnau gwrth-dwyll rhesymol a digonol yn bodoli yn y sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Ydych chi'n cael unrhyw gyllid gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Dibenion a nodir yn Atodlen 1 eich Dyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig a/neu Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir? Os ydych, rhowch fanylion gan gynnwys symiau'r cyllid arall, y swyddi a ariennir a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth. Gellir rhoi mwy o fanylion yn y tabl isod. * ○ Ydym ○ Nac ydym

Rhowch enw'r personél yn eich sefydliad sydd â'r cyfrifoldeb penodol dros reolaeth ariannol mewn perthynas â'r Dibenion.

Enw Cyntaf * | Enw(au) Canol | Cyfenw *

Swydd *

Dileu'r Unigolyn

+ Ychwanegu unigolyn

Pwy sy'n gyfrifol am oruchwylio'r personél a enwir uchod?

Enw Cyntaf * | Enw(au) Canol | Cyfenw *

Swydd *

Dileu'r Unigolyn

+ Ychwanegu unigolyn


Yr ydych yn datgan bod eich cyflogeion, eich swyddogion, eich cyfarwyddwyr, eich ymddiriedolwyr a'ch aelodau bwrdd:

- pan fo'n berthnasol, yn deall yn llawn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth berthnasol yn ymwneud â chwmnïau ac elusennau;
- yn meddu ar wybodaeth ddigonol am faterion llywodraethu i ymgymryd â'u rolau mewn ffordd sy'n cydymffurfio'n llawn â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- yn craffu'n briodol ar waith y rheini sydd â'r prif gyfrifoldeb dros eich rheolaeth ariannol, ac yn ei oruchwylio.

☐ Rwy'n cadarnhau'r datganiad uchod

Gadael | Help ar gyfer y Dudalen hon | Yn ôl | Safio | Gweld Map | Nesaf

Os mai 'Ydw' yw'r ateb i'r cwestiwn *'Ydych chi'n cael unrhyw gyllid gan unrhyw sefydliad arall i gefnogi'r Dibenion?'*, **rhaid** i chi roi manylion unrhyw arian cyhoeddus arall rydych yn ei gael gan unrhyw sefydliad arall mewn perthynas â thaliad refeniw i gefnogi'r diben o warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi'n organig gan gynnwys symiau'r cyllid, swyddi a ariennir a ffynhonnell y cyllid yn y tabl a ddangosir yn y sgrinlun isod.  Mae hyn yn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth.



Rhowch fanylion **unrhyw gyllid arall**, boed yn gyfalaf neu'n refeniw, (gan gynnwys ffrydiau cyllid Llywodraeth Cymru) oddi wrth unrhyw sefydliad i gefnogi'r Dibenion a nodir yn Atodlen 1 eich Dyfarniad Grant Cynllun Troi'n Organig a/neu Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir. Rhaid ichi gynnwys manylion eitemau cyfalaf, swyddi a ariennir, symiau cyllid arall a ffynhonnell y cyllid. Mae hyn cynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth. *

+ Ychwanegu Cyllid

| Math o Gyllid a Diben | Symiau cyllid a dderbyniwyd (gan gynnwys ceisiadau sydd yn yr arfaeth) £ | % cost y swydd/ eitem gyfalaf | Ffynhonnell y cyllid | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Dilëwch |

☑ Rwy'n cadarnhau'r datganiad uchod

Os ydych yn derbyn cyllid arall gan fwy nag un sefydliad/ffynhonnell, gallwch ychwanegu rhes newydd trwy bwyso'r botwm '+ Ychwanegu cyllid'.  Unwaith y bydd y rhes wag wedi'i chreu, gallwch nodi manylion y cyllid.

Dylid defnyddio'r botwm 'Dilëwch' dim ond os ydych chi am ddileu'r rhes.

**Pwysig:** Os ydych yn cael cyllid cyhoeddus mewn perthynas â thaliad refeniw i gefnogi’r diben o warchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi’n organig, ni ddylech hawlio Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP) ar dir os ydych yn derbyn cyllid at yr un diben o unrhyw ffynhonnell arall. Byddai hyn yn cael ei ystyried fel cyllido dwbl ar gyfer yr un darn o dir.

Os pennir eich bod yn derbyn cyllid o ffynhonnell arall ar gyfer gwarchod a chynnal a chadw'r coetir a/neu troi’n organig, gallai hyn olygu cosbau ariannol ac adennill y taliad y gwnaethoch ei hawlio ar gyfer Cynllun Troi'n Organig (OCS) - yn dechrau o 1 Ionawr 2026, Cynnal Creu Coetir (WCM) a/neu Premiwm Creu Coetir (WCP).

**Pwysig:** Ystyr cyllid cyfalaf yw grant untro i brynu eitem neu eitemau ac ystyr arian refeniw yw taliad ar gyfer rheoli ardal am amser penodedig.

Yn ôl i’r cynnwys

## Crynodeb

Nid yw'r sgrin 'Crynodeb' a ddangosir isod yn rhan o'ch cais. At eich diben chi yn unig y mae, fel nodyn i'ch helpu i weld unrhyw gamgymeriadau neu a ydych wedi gadael rhywbeth allan. Bydd yn dangos crynodeb o'ch SAF 2026 ac os cyflwynoch chi un, crynodeb o'ch SAF 2025 ichi gael eu cymharu. Ni fyddwn yn gallu dangos manylion 2025 os nad oeddynt wedi'u prosesu'n llawn adeg codi'r data.

Os oes cynllun na chewch ei hawlio ar eich SAF 2025, fe welwch y llythrennau "Amh".

### Cynlluniau

Crynodeb Cynlluniau

Yn ôl | Safio | Nesaf

**Pwysig**: Darllenwch y Crynodeb hwn. Sgroliwch i lawr os oes angen.

Mae'r canlynol yn grynodeb o'r cais SAF 2026 yr ydych wedi'i gwblhau. Mae hefyd yn grynodeb o SAF 2025 i'ch helpu i gymharu'r ddwy flynedd a nodi unrhyw anghysonderau. Seilir gwybodaeth 2025 ar geisiadau sydd wedi'u cadarnhau. Felly, os na chafodd SAF 2025 neu gais am gynllun unigol ei gyflwyno neu os nad yw wedi'i gadarnhau eto, ni fydd gwybodaeth yn ymddangos.

**Er gwybodaeth yn unig mae'r Crynodeb hwn ac nid yw'n gadarnhad bod yr wybodaeth yn eich cais yn gywir nac yn ffurfio rhan o'ch cais SAF 2026.**

Os oes cynllun na chewch ei hawlio ar eich SAF 2025, fe welwch y llythrennau "Amh".

Mesurir arwynebeddau mewn hectarau ac maen nhw ar gyfer tir yng Nghymru yn unig. Nid oes arwynebedd ar gyfer Tir Comin BPS 2026 gan fod y tir porthiant sy'n cael ei neilltuo ar gyfer hawliau pori yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn.

Gofalwch fod yr arwynebedd rydych yn ei hawlio o dan Gynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig yn cyfateb i'r arwynebedd yn eich contract.

| Cynlluniau | 2026 (wedi'i ddatgan) | 2025 (wedi'i gadarnhau) |
|---|---|---|
| **Yr holl Dir SAF sydd wedi'i ddatgan** | | |
| Arwynebedd yr holl dir | [redacted] | |
| Nifer yr holl barseli tir | [redacted] | |
| **BPS** | **Wedi'i hawlio** | **Wedi'i hawlio** |
| Arwynebedd Tir | [redacted] | |
| Tir Comin | ✓ | |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| Nifer yr Hawliau | [redacted] | |
| **Taliad Ffermwr Ifanc y BPS** | **Heb ei hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| **Cynllun Troi'n Organig (OCS) - dyfarniad grant yn dechrau o 1 Ionawr 2026** | **Wedi'i hawlio** | **Amh** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Troi'n Organig (OCS) – Cydymffurfio** | **Wedi Cydymffurfio** | **Amh** |
| **Cymorth Organig (OS)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Cynnal Creu Coetir (WCM)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Premiwm Creu Coetir (WCP)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Premiwm Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd cyn 1 Hydref 2015 (GWCP)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Taliad cynnal Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015 (GCM)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |
| **Premiwm Creu Coetir Glastir - contractau a arwyddwyd ar ôl 1 Hydref 2015 (GCP)** | **Wedi'i hawlio** | **Heb ei hawlio** |
| Nifer y Parseli Tir | [redacted] | |

Gadael | Yn ôl | Safio | Gweld Map | Nesaf

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Cnydau

Mae’r sgrin lun isod yn dangos arwynebedd pob cnwd rydych wedi’i ddatgan a’r arwynebedd rydych wedi hawlio BPS arno.  Nid yw’n dangos cyfansymiau contractau gan nad ydych yn eu hawlio yn erbyn cnydau unigol ar y SAF.

Crynodeb Cnydau

‹ Yn ôl | Safio | Nesaf ›

**Pwysig**: Darllenwch y Crynodeb hwn. Sgroliwch i lawr os oes angen.

**Rydych wedi datgan / hawlio'r arwynebeddau canlynol. Nid yw hynny'n cadarnhau bod y cnydau'n gymwys ar gyfer y cynlluniau rydych yn eu hawlio.**

Mesurir arwynebeddau mewn hectarau ac maen nhw ar gyfer tir yng Nghymru yn unig.

| Cnydau | Y Cyfanswm wedi'i ddatgan | BPS wedi'i hawlio | Ail gnydau |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | [redacted] | [redacted] | [redacted] |
| Adeiladau a Buarthau (ZZ89) | | | |
| Afonydd a Nentydd (ZZ31) | | | |
| Arwynebau caled (ZZ92) | | | |
| Cnydau Âr Cymysg (MC3) | | | |
| Coetir - llydanddail - grŵp (ZZ11) | | | |
| Gwenith - wedi'i hau yn y gaeaf (WT1) | | | |
| Haidd - wedi'i hau yn y gaeaf (BA4) | | | |
| Porfa dros-dro - lai na 5 mlynedd (GR1) | | | |
| Porfa parhaol - dros 5 mlynedd (GR2) | | | |
| Prysgwydd / Eithin / Mieri - gwasgarog (YY23) | | | |
| Pyllau - anghymwys (ZZ30) | | | |
| Tatws (PO1) | | | |
| Traciau heb eu pori (ZZ97) | | | |

Gadael | ‹ Yn ôl | Safio | Gweld Map | Nesaf ›

[Yn ôl i’r cynnwys]


# Cyflwyno

## Gwallau a Gwybodaeth


Mae’r adran yn rhestru’r Negeseuon ‘Camgymeriadau’ a ‘Gwybodaeth’ ar eich SAF fel y dangosir yn y sgrin luniau isod.


**Rhaid** cywiro unrhyw wallau cyn y cewch gyflwyno’ch SAF. Diben y negeseuon Gwybodaeth yw ’ch atgoffa am unrhyw gamau y mae gofyn ichi eu cymryd, ond nid ydynt yn eich rhwystro rhag cyflwyno’ch SAF.

I weld negeseuon Gwallau a Gwybodaeth penodol, cliciwch ar enw’r adran ar ochr chwith y sgrin. Os oes gennych negeseuon Gwallau neu Wybodaeth nad ydyn nhw’n gysylltiedig ag adran benodol, byddan nhw’n ymddangos ar sgrin yr adran hon.




Ar ôl ichi gywiro’r Gwallau, bydd eich SAF yn barod i fynd.








[Yn ôl i’r cynnwys](#)

## Tystiolaeth Ddogfennol

Mae'r adran Tystiolaeth Ddogfennol yn rhestru'r dogfennau sy'n cael eu hystyried yn Dystiolaeth Ddogfennol neu'n Ddogfennau Ategol. **Darllenwch y rhestr yn ofalus i wneud yn siŵr eich bod yn cyflwyno'r holl ddogfennau sy'n berthnasol i'ch cais. Gallem wrthod eich hawliad os na fyddwch wedi cyflwyno'r dogfennau perthnasol erbyn y dyddiad cau.** (Gweler *'Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026'* am ragor o wybodaeth.)

Ticiwch y blwch/blychau sy'n berthnasol i'ch cais wrth droed yr adran fel y dangosir yn y sgrin luniau isod.


Cyflwyno Tystiolaeth ddogfennol

Yn ôl | Safio | Nesaf

Iddyn nhw allu cefnogi'ch cais, rhaid cyflwyno dogfennau i gefnogi'r **BPS** erbyn 31 Rhagfyr 2026. Ni fydd modd eich talu (gan gynnwys Rhagdaliad y BPS) nes bod y dystiolaeth yn cyrraedd. Os na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwno erbyn 31 Rhagfyr 2026, byddwn yn gwrthod eich cais.

Iddyn nhw allu cefnogi'ch cais, rhaid cyflwyno dogfennau i gefnogi **Cymorth Organig** erbyn 31 Rhagfyr 2026. Ni fydd modd eich talu nes bod y dystiolaeth yn cyrraedd. Os na fydd tystiolaeth wedi'i chyflwno erbyn 31 Rhagfyr 2026, byddwn yn gwrthod eich cais.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y **Cynllun Troi'n Organig** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni gofynion y cynllun. Gall methu bodloni telerau ac amodau'r contract a/neu Ddyfarniad Grant arwain at ganslo eich contract/Dyfarniad Grant a/neu adennill y taliadau sydd eisoes wedi cael eu talu ichi.

Os ydych am gyflwyno dogfennau drwy'r post, gofalwch fod y rheini hefyd yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn y dyddiadau hyn. Rydym wedi rhestru'r dystiolaeth sy'n dderbyniol isod. (dim ond enghreifftiau ydyn nhw).

### Ffermwr Actif

### Ffermwr yn cadarnhau Gweithgareddau Amaethyddol

- Derbynebau ffensio
- Derbynebau plygu perthi
- Derbynebau hadau glaswellt / cnydau âr
- Derbynebau gwrtaith
- Derbynebau plaladdwyr
- Anfonebau gwerthu silwair, gwywair a gwair

### BPS - Coed sy'n cael eu gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed (TP8)

- Copi o'r Gorchymyn Cadw Coed ar gyfer y coed rydych yn hawlio BPS arnynt.
- Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol

### Cynllun Troi'n Organig

- Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf
- Tystiolaeth o weithgarwch amaethyddol, os oes angen.
- Os ydych chi'n hawlio am gyfradd taliad Garddwriaeth, tystiolaeth bod y cnydau'n cael eu tyfu a'u gwerthu ar raddfa fasnachol, gan gynnwys cyfaint y gwerthiant. (Cofnodion cnydau, derbynneb, anfonebau ac ati)
- Os ydych chi'n hawlio fel Menter Llaeth, tystiolaeth o lythyr o fwriad, gwerthu llaeth organig neu gynhyrchion sy'n deillio o laeth.

### Cymorth Organig

- Os oes angen ichi gyflwyno tystiolaeth i ddangos eich bod yn ymgymryd â gweithgarwch amaethyddol ar gyfer BPS neu os nad ydych wedi hawlio BPS, bydd angen ichi gyflwyno tystiolaeth i ddangos eich bod yn bodloni'r gofynion sydd ar gynhyrchwyr cynradd
- Copi o Dystysgrif ddiweddaraf oddi wrth eich Corff Rheoli Organig (OCB) a Rhestr Tir diweddaraf
- Os ydych yn hawlio ar gyfer Garddwriaeth, tystiolaeth o werthu cnydau garddwriaethol organig nad ydynt yn borthiant, gan gynnwys cyfaint y gwerthiant
- Os ydych yn hawlio ar gyfer Llaeth, tystiolaeth o werthu llaeth organig neu gynhyrchion sy'n deillio o laeth
- Os oes gennych lai na 3ha o dir amaethyddol cymwys wedi'i gofrestru gyda Taliadau Gwledig Cymru yng Nghymru, mae'n rhaid i chi gyflwyno tystiolaeth i ddangos dros 550 o oriau llafur safonol
- Llythyr cyfrifwyr i gadarnhau bod y busnes wedi cwblhau mwy na 550 awr yn y flwyddyn galendr flaenorol

**Neu**

- Dim ond os yw'n darparu lefel gyfatebol o sicrwydd y derbynnir tystiolaeth heblaw llythyr gan gyfrifydd achrededig fel prawf. Mae hyn yn golygu y dylid ei wirio gan ffynhonnell annibynnol, achrededig, fel cyfreithiwr, sydd â digon o ddealltwriaeth o'r busnes i gadarnhau'r hawliad o waith 550 awr yn cael ei wneud

### Ticiwch y blwch/blychau priodol isod

☐ **Rwy'n cyflwyno dogfennau ategol ar-lein.**

☐ **Rwy'n cyflwyno dogfennau ategol drwy'r post.**

☐ **Nid oes tystiolaeth ddogfennol sy'n berthnasol i'm cais.**

☐ **Rwyf eisoes wedi cyflwyno tystiolaeth ddogfennol.**

Bydd y geiriau ychwanegol a ddangosir yn y sgrin lun isod yn ymddangos os oes angen i chi gadarnhau bod eich busnes yn gwneud gwaith cynhyrchu amaethyddol a/neu'n cynnal y tir mewn cyflwr sy'n addas i'w bori neu ei drin.

## Ffermwr Actif

- **Pwysig**: Rhaid ichi ddarparu dogfennau ategol fel tystiolaeth i gefnogi'ch datganiad eich bod yn cynnal gweithgaredd amaethyddol. Rhaid i'r dystiolaeth fod yn berthnasol i 2026 a gall gynnwys y canlynol:
  **Mae'r busnes yn cynhyrchu cynnyrch amaethyddol.**

  (Mae hyn yn cynnwys cynaeafu, godro, bridio anifeiliaid a chadw anifeiliaid at ddibenion ffermio.)

  - Cofnodion y ddiadell neu'r fuches
  - Derbynebau hadau glaswellt / cnydau âr
  - Cofnodion cwotâu llaeth
  - Cofnodion llaeth
  - Derbynebau gwerthu
  - Tystiolaeth filfeddygol
  - Adroddiadau gan Agronomegydd

  **Mae'r busnes yn cynnal y tir rydych wedi'i ddatgan ar eich SAF mewn cyflwr addas ar gyfer ei bori neu ei drin.**

  - Copïau o anfonebau ar gyfer rheoli chwyn a phrysgwydd goresgynnol estron e.e. plaladdwyr.
  - Copïau o gofnodion fferm sy'n dangos y gwaith i reoli chwyn a phrysgwydd goresgynnol estron e.e. tocio, llyfnu, rholio, torri, plaladdwyr.
  - Copïau o gontractau neu gofnodion fferm am waith cynnal a chadw ar ffiniau cadw stoc, torri / plannu perthi

## Ffermwr yn cadarnhau Gweithgareddau Amaethyddol

- Derbynebau ffensio
- Derbynebau plygu perthi
- Derbynebau hadau glaswellt / cnydau âr
- Derbynebau gwrtaith
- Derbynebau plaladdwyr
- Anfonebau gwerthu silwair, gwywair a gwair

Yn ôl i'r cynnwys

## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau i wneud yn siŵr eich bod yn cydymffurfio â nhw. Pan fyddwch yn fodlon eich bod wedi darllen a deall ac wedi cydymffurfio â nhw, ticiwch y blwch wrth droed yr adran i fynd yn eich blaen fel y dangosir yn y sgrin lun isod.

**Cyflwyno** Datganiadau ac Ymrwymiadau

Yn ôl | Safio | Nesaf

Os ydych yn derbyn y datganiadau a'r ymrwymiadau, ticiwch y bocs.

At ddiben ceisio am y Taliad Sylfaenol, rwy'n cadarnhau fy mod yn ffermwr yn unol ag ystyr Erthygl 4(1)(a) Rheoliad yr UE 1307/2013, fel ag y mae wedi'i ddisgrifio yn Llyfryn Rheolau Ffurflen y Cais Sengl. Rwy'n ymwybodol o amodau fy nghais sengl ac rwyf wedi cadw atynt.

Rwyf wedi darllen, deall a chydymffurfio â'r holl nodiadau canllaw perthnasol ar gyfer y cynlluniau, yn benodol, Llyfryn Rheolau Cais Sengl 2026 a rheolau unrhyw gynlluniau ar gyfer y cynlluniau yr wyf yn hawlio taliadau amdanynt.

**Cynllun y Taliad Sylfaenol - Blwyddyn Hawlio 2026**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cydymffurfio â'r gofynion a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys:

- Rheoliad yr UE 1307/2013 gan gynnwys Rheoliad Dirprwyedig yr UE 639/2014 a Rheoliad Gweithredu UE 641/2014; a

- Rheoliad yr UE 1306/2013, gan gynnwys Rheoliadau Dirprwyedig 640/2014 a 907/2014 a Rheoliadau Gweithredu'r UE 809/2014 a 908/2014,

fel y'u dargedwir gan Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020, ac fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau'r Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020, Rheoliadau Cyllido, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol (Diwygio) 2020, a Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 a Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025.

**Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a Cynlluniau Eraill – Blwyddyn Hawlio 2026**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi cydymffurfio â'r gofynion sydd yng Nghyfraith berthnasol yr UE a ddargedwir (a elwir bellach yn 'Gyfraith a Gymathwyd') ac mewn cyfraith ddomestig, gan gynnwys:

- Rheoliad 1305/2013, Rheoliad Dirprwyedig 807/2014 a Rheoliad Gweithredu 808/2014 y Cyngor;

- Rheoliad 1303/2013 y Cyngor;

- Rheoliad 1306/2013, Rheoliad Dirprwyedig 640/2014 a Rheoliad Gweithredu 809/2014 y Cyngor;

- Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2014/3222 (Cy.327);

- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Gweinyddu a Rheoli Integredig a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014/3223 (Cy.328)

fel y'u diwygiwyd o bryd i'w gilydd, gan gynnwys gan Reoliadau Cymorth Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021/400 (Cy.129)

Rwy'n cadarnhau fy mod yn ymwybodol o holl ofynion y contractau a/neu ddyfarniad grant o dan y Cynllun Creu Coetir Datblygu Gwledig a Cynllun Eraill yr wyf yn elwa arnynt ac fy mod wedi cydymffurfio â nhw.

**Cyffredinol**

Byddaf yn caniatáu swyddogion sydd ag awdurdod yr Adran(nau) Amaeth perthnasol a'u hasiantwyr awdurdodedig a'r sawl all ddod gyda nhw, i ddod ar y tir rwy'n ei ffermio i archwilio tir, anifeiliaid, offer, cyfleusterau storio a chofnodion fferm (gan gynnwys cofnodion cyfrifiadurol) perthnasol ac unrhyw agweddau eraill ar y fferm i gadarnhau bod yr wybodaeth yn y cais hwn yn gywir a byddaf yn rhoi pob help rhesymol iddynt i'r diben hwnnw. Deallaf y caiff fy hawliadau eu gwrthod os byddaf i neu fy nghynrychiolydd yn atal unrhyw un o'r uchod rhag cael ei gyflawni.

Byddaf yn cadw, am gyfnod o 10 mlynedd, yr holl gofnodion a gwybodaeth a byddaf yn eu darparu i swyddogion yr Adran(nau) Amaeth perthnasol neu eu hasiantwyr awdurdodedig sy'n gofyn amdanynt, o fewn cyfnod a bennir ganddynt, mewn cysylltiad â'r cais hwn ac i gadarnhau fy mod yn cadw at yr ymrwymiadau a'r datganiadau hyn.

Byddaf, os bydd yr Adran Amaeth berthnasol yn gofyn imi, yn ad-dalu unrhyw gymorth a gaf, ynghyd â'r llog, os byddaf yn torri'r rheolau neu'r datganiadau neu'r ymrwymiadau yn y cais hwn.
Byddaf yn ad-dalu pan ofynnir imi unrhyw gymorth y bydd yr Adran wedi'i dalu yn ormod imi, boed hynny oherwydd camgymeriad gan Lywodraeth Cymru neu beidio.

Rwy'n deall y gall y ddeddfwriaeth berthnasol (a'r mesurau rheoli) newid o dro i dro. Rwy'n derbyn y gall fod angen i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r rheolau a'r amodau ac rwy'n cytuno i gadw at unrhyw newidiadau ar ôl i Lywodraeth Cymru roi gwybod imi amdanynt.

Rwy'n ymwybodol o'r amgylchiadau lle gallai Llywodraeth Cymru ddefnyddio a / neu rannu'r wybodaeth a ddarperir ar y SAF ac mewn unrhyw ddogfennau eraill a ddefnyddir mewn cysylltiad â chais am gymorth o dan y cynlluniau Taliad Uniongyrchol, Cynlluniau Creu Coetir Datblygu Gwledig a Chynlluniau Eraill. Mae'r amgylchiadau hynny'n cynnwys defnyddio gwybodaeth sy'n cael ei chreu neu a geir mewn cysylltiad â cheisiadau o'r fath (gan gynnwys manylion taliadau a wneir i mi / fy musnes). Rwy'n cytuno y ceir datgelu neu gyfnewid gwybodaeth yn unol â'r gofyn.

Rwy'n deall y bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ac yn datgelu gwybodaeth yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Rheoliad 1306/2013 y Cyngor, Rheoliad 908/2014 y Comisiwn a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol 679/2016. Caiff gwybodaeth arall hefyd ei datgelu os bydd y gyfraith yn caniatáu.

Rwyf wedi datgelu manylion yr holl gytundebau neu grantiau rheoli rwyf yn eu derbyn neu'n bwriadu ymgeisio amdanynt lle ceir potensial i'm talu ddwywaith.

Mae'r manylion rwyf wedi'u rhoi ar y cais hwn a'r dogfennau cysylltiedig, hyd eithaf fy ngwybod a'm cred, yn wir, yn gywir ac yn gyflawn. Rwyf wedi darllen yr holl wybodaeth sydd wedi'i rhag-gofnodi gan gadarnhau ei bod yn gywir.

Rwy'n deall bod Llywodraeth Cymru'n dangos 'Camgymeriadau' a 'Gwybodaeth' yn yr adrannau ac yn y crynodeb er mwyn fy helpu i lenwi a chyflwyno'r cais. Rwy'n deall nad cadarnhad fy mod wedi hawlio taliad ar y caeau a fwriadwyd nac o gywirdeb y cais ydyw. Fy nghyfrifoldeb i yw cadarnhau bod fy hawliad wedi'i wneud yn gywir.

Byddaf yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth rwyf wedi'i rhoi ar y cais hwn a'r dogfennau cysylltiedig.

**Gellid erlyn unrhyw un sy'n gwneud datganiad ffug neu sydd ddim yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y cais hwn. Gallai datganiad ffug, anghywir neu anghyflawn neu fethiant i roi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid perthnasol i'r wybodaeth sydd wedi'i rhoi ar y cais hwn arwain at golli'r hawl i daliad a/neu adennill taliadau sydd wedi'u gwneud.**

☐ **Rwyf wedi darllen y Datganiadau a'r Ymrwymiadau uchod ac yn cytuno arnynt.**

[Yn ôl i'r cynnwys]

## Cyflwyno

Mae'ch SAF nawr yn barod ichi ei chyflwyno.  Os ydych yn barod i'w chyflwyno, cliciwch ar 'Anfon' fel y dangosir yn y sgrin lun isod.  Ar ôl ichi wneud, caiff eich SAF ei hanfon at Lywodraeth Cymru.

Byddwch wedyn yn gallu cyflwyno unrhyw Dystiolaeth Ddogfennol sydd ei hangen ar eich cais, naill ai trwy 'ch Negeseuon RPW Ar-lein neu drwy'r post neu'n bersonol os oes angen dogfennau gwreiddiol.

Bydd Asiantwyr neu Undebau Ffermwyr sydd heb yr hawl i 'Gyflwyno Hawliadau' yn gallu safio'r SAF a threfnu bod y cwsmer yn ei chyflwyno.

**Cofiwch – rhaid cyflwyno pob SAF erbyn 15 Mai 2026, neu erbyn 9 Mehefin 2026 gyda chosbau.  Byddwn yn gwrthod unrhyw SAF ar ôl y dyddiad hwn.**


**Dogfennau Ategol**

Rhaid i holl Ddogfennau Ategol y **BPS** gyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2026.  Ni chaiff unrhyw daliad (gan gynnwys Rhagdaliad BPS) ei wneud tan y bydd tystiolaeth wedi dod i law eich bod yn cynnal gweithgarwch amaethyddol yn 2026. Os na fydd tystiolaeth wedi cyrraedd erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Bydd gofyn ichi gyflwyno'r holl dogfennau ategol sydd eu hangen ar gyfer y **Cynlluniau Eraill – Cynllun Troi'n Organig a/neu Cymorth Organig**, gan gynnwys y rhai i ddangos eich bod yn cynnal gweithgaredd amaethyddol, cyn y dyddiad cau o 31 Rhagfyr 2026.  Os na fyddwch wedi cyflwyno unrhyw dystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Ar gyfer **Cymorth Organig**, os oes rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth i ddangos gweithgarwch amaethyddol ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) neu os nad ydych wedi hawlio BPS, bydd raid ichi gyflwyno tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026 i brofi eich bod yn **gynhyrchydd cynradd o gynhyrchion amaethyddol**.  Os na chyflwynir tystiolaeth erbyn 31 Rhagfyr 2026, caiff eich hawliad ei wrthod.

Mae'n rhaid sicrhau bod yr holl ddogfennau atodol ar gyfer y **Cynllun Troi'n Orgaing** yn cyrraedd Llywodraeth Cymru erbyn 31 Rhagfyr 2026 er mwyn bodloni eich gofynion cytundebol.




Yn ôl i'r cynnwys

## Manylion Cysylltu

### Ymholiadau gan Ffermwyr – Y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Y lle cyntaf i'w ffonio neu ei e-bostio os oes gennych gwestiwn yw'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid lle bydd staff wrth law i roi gwybodaeth ac i ateb cwestiynau.

Gallwch ddefnyddio'r dudalen 'Negeseuon' yn eich cyfrif RPW Ar-lein i holi'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid. Fel arall, defnyddiwch y manylion cysylltu canlynol:

Ffôn: 0300 062 5004
Cyfeiriad Blwch Swyddfa Bost: Taliadau Gwledig Cymru, Blwch Post 251, Caernarfon, LL55 9DA

Mae amserau agor y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid fel a ganlyn:

- 2 o Fawrth i 15 o Fai 2026 (ac eithrio Gwyliau Banc):
  Llun i Gwener: 09:00am i 4:00pm

### Swyddfeydd Rhanbarthol ac Ardal

Mae ein Swyddfeydd Rhanbarthol ar agor trwy apwyntiad yn unig.

| | |
|---|---|
| Swyddfa Ranbarthol Caernarfon<br>Llywodraeth Cymru<br>Doc Fictoria<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1TH | Swyddfa Ranbarthol Llandrindod<br>Llywodraeth Cymru<br>Neuadd y Sir<br>Spa Road East<br>Llandrindod LD1 5LG |
| Swyddfa Ranbarthol Caerfyrddin<br>Adeiladau'r Llywodraeth<br>Teras Picton<br>Caerfyrddin SA31 3BT | |

## Mynediad at Swyddfeydd RPW i bobl ag anableddau neu anghenion arbennig

Os oes gennych anghenion arbennig a'ch bod yn teimlo nad yw ein cyfleusterau yn ateb eich gofynion, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 i gael swyddogion Llywodraeth Cymru wneud trefniadau addas ar eich cyfer.

### Gwefan Llywodraeth Cymru

Am yr wybodaeth ddiweddaraf am Amaethyddiaeth a Materion Gwledig, ewch i wefan Llywodraeth Cymru a chofrestru am e-gylchlythyr Materion Gwledig fydd yn cael ei e-bostio atoch.

### Gwlad

E-gylchlythyr Gwlad yw e-gylchlythyr Llywodraeth Cymru i ffermwyr, busnesau coedwigaeth a phawb sydd â diddordeb mewn ffermio ac yng nghefn gwlad Cymru. Mae'n llawn newyddion, cyngor a gwybodaeth hawdd eu ffeindio a'u deall. I sicrhau eich bod yn clywed am y newyddion a'r datblygiadau diweddaraf gallwch gofrestru i dderbyn e-gylchlythyr Gwlad trwy fynd i: wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ôl i'r cynnwys



